# Adolygiad O Wahanol Ffyrdd O Ymdrin Â Datblygu Sgiliau O Fewn Cymunedau

## Papur Materion

Rhagfyr 2002

**Julie Owens**
**Dadansoddwr Cwsmeriaid a Marchnadoedd**
**ELWa**

Cynnwys

1 Crynodeb Byr .......... 3
2 Y Cyd-destun .......... 3
3 Cysyniadau a Diffiniadau .......... 4
3.1 Meithrin Gallu .......... **Error! Bookmark not defined.**
3.2 Cymuned .......... **Error! Bookmark not defined.**
3.3 Cyfalaf Cymdeithasol .......... **Error! Bookmark not defined.**
3.4 Broceriaid a chyfryngwyr .......... 6
4 Ffyrdd o Ddatblygu Sgiliau .......... 7
5 Amrywiaeth .......... 12
6 Crynodeb .......... 14
7 Materion Allweddol .......... 16
8 Ymchwil Pellach .......... 17
Atodiad I: Enghreifftiau o Ddulliau o Ymdrin â Datblygu Sgiliau yn y Gymuned .......... 18
Y Gronfa Ddysgu i Oedolion a Chymunedau (ACLF) .......... 18
Gwirfoddolwyr y Mileniwm .......... 20
Y Gronfa Cynnal Cymdogaethau .......... 22
Y Fargen Newydd i Gymunedau .......... 24
Dysgu drwy Wasanaeth .......... 26
Cronfa Ddysgu'r Undebau .......... 27
Busnes yn y gymuned .......... 29
Y Gwasanaeth Carchardai .......... 31
Grwpiau Sector .......... 32
Ymddiriedolaeth Groundwork .......... 33
Addysg/Hyfforddiant gan Gymheiriaid .......... 34
Ymddiriedolaeth y Tywysog .......... 36
Y Sector Gwirfoddol .......... 37
Cyfeiriadau .......... 41

**1 Crynodeb Byr**

Gall ffyrdd o ymdrin â datblygu sgiliau yn y gymuned gael eu trefnu gan gyfryngwyr (e.e. hyrwyddwyr cymunedol) neu gan froceriaid (e.e. Busnes yn y Gymuned). Ym mhob un o'r dulliau yr ymdrinnir ag ef yn yr adolygiad hwn, broceriaid sy'n arwain gyda rhywfaint o gymorth oddi wrth gyfryngwyr. Nod dulliau o'r fath yw meithrin gallu drwy weithgareddau sydd un ai'n dod â phobl sy'n adnabod ei gilydd yn barod ac yn rhannu agweddau cyffelyb ynghyd neu roi pobl mewn cysylltiad ag eraill sydd ag agweddau gwahanol. Adolygir tri dull ar ddeg a fydd, gobeithio, yn rhoi blas clir o'r ffordd yr ymdrinnir â datblygu sgiliau ar lefel gymunedol.

**2 Y Cyd-destun**

Dengys yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2000) fod tlodi, dros yr ugain mlynedd diwethaf, wedi crynhoi yn fwy na chynt mewn cymdogaethau ac ystadau unigol, a bod yr ardaloedd hyn wedi cael eu hallgáu yn gymdeithasol yn fwy amlwg na chynt. O'u cymharu â gweddill y wlad, mae gan lawer o ardaloedd difreintiedig gyfradd marwolaethau sydd 30% yn uwch; mae gan 25% yn fwy o bobl sgiliau a llythrennedd isel; mae'r cyfraddau diweithdra chwe gwaith yn uwch; a cheir teirgwaith mwy o achosion o fwrgleriaeth. Mae'r Uned Allgáu Cymdeithasol yn credu mai diweithdra a chau rhai diwydiannau penodol, sydd wedi distrywio llawer o gymunedau, yw'r ffactorau sydd wedi arwain yn bennaf at ddirywiad cymdogaethau. Mae angen lefelau sgiliau uwch ar y diwydiannau newydd sy'n ymddangos ac nid yw'r bobl leol wedi gallu llenwi'r swyddi hynny, gan adael llawer o gymdogaethau yn llwyr ddibynnol bron ar fudd-daliadau gwladol ac arian cyhoeddus. Mae tlodi a diweithdra yn gwneud llu o broblemau cymdeithasol eraill yn waeth – ymysg y problemau hyn mae teuluoedd yn chwalu, iechyd gwael, pobl ifanc wedi'u dadrithio, cyffuriau a throseddu. Yn 2001 dywedodd yr Uned ymhellach fod pobl sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig yn fwy tebyg nag eraill i beidio â meddu ar sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau 'byw' eraill a bod llawer wedi ymddieithrio oddi wrth ddysgu yn y gorffennol a'i bod yn fwy anodd eu cael i gymryd rhan yn awr. Mae'r Uned Allgáu Cymdeithasol yn awgrymu bod angen gweithredu ar bedwar ffrynt:

- adfywio economïau lleol;
- adfywio cymunedau,
- sicrhau gwasanaethau teilwng; ac
- arweinyddiaeth a chydweithio.

Mae'r Uned yn pwysleisio bod adfywio cymunedau lleol yn golygu gwneud sgiliau oedolion yn flaenoriaeth mewn cymdogaethau difreintiedig. Mae Malcolm Wicks (2001), cyn Is-ysgrifennydd Gwladol dros Ddysgu Gydol Oes, yn crynhoi'r angen i ddatblygu sgiliau:

*Rydym am greu Cymdeithas Sy'n Dysgu lle mae pawb yn cael y cyfle i ddiweddaru eu sgiliau a dysgu gydol eu hoes. Mae hyn yn golygu helpu mwy o bobl i ddatblygu'r sgiliau i fod yn llwyddiannus ym maes cyflogaeth ac mae hefyd yn golygu cefnogi dysgu o bob math – yn cynnwys dysgu anffurfiol, dysgu yn y gymuned a dysgu er mwyn pleser – sy'n gallu helpu pobl i oresgyn anfantais gymdeithasol a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.*

*Dwy ochr i'r un geiniog yw'r ddau amcan hwn, yr economaidd a'r cymdeithasol. Rhaid ymdrin â nhw mewn ffordd integredig.*

# 3 Cysyniadau a Diffiniadau

## 3.1 Meithrin Gallu

Mae Henderson a Thomas (2000) yn awgrymu bod meithrin gallu yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt unigolion a grwpiau a'i fod yn gallu golygu'r ffordd y rhoddir i bobl y wybodaeth, y sgiliau a'r technegau i'w galluogi i ymgymryd â thasgau a swyddi penodol. Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwaith datblygu sy'n cryfhau gallu mudiadau a grwpiau cymunedol i lunio eu strwythurau a'u systemau a meithrin eu pobl a'u sgiliau fel eu bod yn fwy abl i ddiffinio a gwireddu eu hamcanion.

## 3.2 Cymuned

Mae Frazer (2002) yn tynnu sylw at y ffaith fod y term 'cymuned' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pobl sy'n byw yn yr un man neu sy'n rhannu hunaniaeth gyffredin a chaiff ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o briodoli gwerthoedd a rhagdybiaethau neilltuol i bobl. Mae Glen (1993) yn nodi tair ffordd o ddefnyddio'r term 'cymuned':

- Fel disgrifiad: cymuned fel grŵp neu rwydwaith o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin;
- I ddynodi gwerth: cymuned fel man lle ceir undod, cyfranogiad a chydlyniad;
- Ffordd o weithredu: cymuned fel asiant sy'n gweithredu i gynnal neu newid ei hamgylchiadau.

Fodd bynnag, ceir dryswch yn aml rhwng y tair ffordd hon o ddefnyddio'r term cymuned. Nid oes gan bobl sy'n byw yn yr un man bob amser nodweddion cyffredin â'i gilydd ac nid ydynt bob amser yn rhannu'r un gwerthoedd. Mae trafodaethau am 'gymuned' yn aml yn gorsymleiddio ac yn cyflwyno safbwynt rhamantaidd.

## 3.3 Cyfalaf Cymdeithasol

Mae'r cysyniad o 'gyfalaf cymdeithasol' yn fwy priodol a llai dadleuol na'r cysyniad o 'gymuned' a chafodd ei ddiffinio gan Putnam (1993) fel:

- Nodweddion bywyd cymdeithasol – rhwydweithiau, normau ac ymddiriedaeth – sy'n galluogi'r cyfranogwyr i weithredu gyda'i gilydd yn fwy effeithiol er mwyn ymgyrraedd at amcanion cyffredin.

Yn ôl LSDA (2002) gellir ystyried cyfalaf cymdeithasol yn ffactor hanfodol o ran denu dysgwyr newydd. Mae pum rheswm am hyn:

- Mae datblygu cyfalaf cymdeithasol a'i gyfnither, menter gymdeithasol, yn amcanion polisi allweddol sydd hefyd yn meithrin rhai mathau o ddysgu. Mae cydlyniad cymdeithasol, dinasyddiaeth weithredol ac adfywio cymdogaethau difreintiedig i gyd yn golygu dysgu, pa mor anffurfiol bynnag y bo neu ni waeth i ba raddau y mae'n dod yn ail i'r prif nod.

- Mae ymdrin â dysgu o safbwynt 'cyfalaf cymdeithasol' yn cydnabod bod modd diwallu'r galw am ddysgu drwy ffurfiau ehangach o gyfranogiad cymdeithasol neu economaidd (e.e. cymryd rhan mewn clybiau, grwpiau diddordeb, grwpiau ffydd, undebau credyd).
- Mae yna dystiolaeth (e.e. o'r gwledydd Nordig) y bydd unigion a grwpiau yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau lefel uwch drwy weithredaeth yn y gymuned ac yn y gymdeithas sifil, yn cynnwys dysgu hunangyfeiriedig. Mae'r ymdriniaeth hon yn annog datblygu cyfalaf dynol a chyflogadwyedd drwy gyfalaf cymdeithasol.
- Gall cyfalaf cymdeithasol fod yn hanfodol er mwyn gwella darpariaeth y wladwriaeth, nid dim ond i gynyddu cyfranogiad ynddi. Fel y dywedodd Robert Putnam (2000), cafodd y cysyniad o gyfalaf cymdeithasol ei ddyfeisio yn 1918 i ddisgrifio pwysigrwydd ymwneud y gymuned i ysgolion llwyddiannus.
- Mae cyfalaf cymdeithasol yn rhywbeth unigol a chyfunol. Gall felly gyfrannu at ddatblygu dysgu gydol oes ac ehangu cyfranogiad drwy helpu i chwalu rhaniadau di-fudd rhwng unigolion a grwpiau (yn cynnwys cyflogwyr). Mae unigolion yn llunio cysylltiadau ag eraill er mwyn hybu eu hunan les. Gallant hefyd ymuno â grwpiau y mae eu gweithgareddau yn hybu amcanion cymdeithasol. Gellir gwasanaethu lles y cyhoedd a lles preifat yr un pryd.

Mae'r normau y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys dwyochredd, cydweithredu a goddefgarwch – nodweddion a gynhyrchir drwy gysylltiadau llorweddol, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb. Nododd Putnam ddau fath o gyfalaf cymdeithasol:

- **Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo** – mae clymau o fewn cymunedau a grwpiau yn dod â phobl sy'n debyg i'w gilydd o ran eu hagweddau, diddordebau ac addysg ynghyd – pobl sydd eisoes yn adnabod ei gilydd
- **Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio** – defnyddir clymau rhwng cymunedau a'r amgylchedd allanol i roi pobl sy'n wahanol i'w gilydd o ran agweddau, diddordebau, addysg a chylchoedd cymdeithasol mewn cysylltiad â'i gilydd – pobl nad oeddent yn adnabod ei gilydd gynt.

Dywed Putnam (2001): Yn yr un modd ac y gall tyrnsgriw (cyfalaf corfforol) neu addysg coleg (cyfalaf dynol) gynyddu cynhyrchiant (unigol a chyfunol), felly hefyd y gall cysylltiadau cymdeithasol effeithio ar gynhyrchiant unigolion a grwpiau'. Mae Mohan a Mohan (2002) yn egluro ymhellach y credir bod cyfalaf cymdeithasol yn cael effaith lesol ar *unigolion* (drwy hyrwyddo gwell iechyd, rhyngweithio cymdeithasol; gwneud llwyddiant yn fwy tebygol wrth chwilio am waith; darparu hinsawdd ffafriol ar gyfer entrepreneuriaeth) a hefyd ar *gymunedau* (yn gyffredinol, ysgogi datblygu economaidd gan fod rhai adnoddau ar gael na fyddent i'w cael fel arall).

I Coleman (1988), gellir cysyniadoli cyfalaf cymdeithasol un ai fel budd cyhoeddus neu fudd preifat. Wrth ddefnyddio cyfalaf cymdeithasol yn dda yn gyhoeddus, canolbwyntir ar y mathau arbennig o weithredu cymdeithasol sy'n bosibl o gysylltu normau cyffredinol ag ardal ddaearyddol benodol. Yn y cysyniad hwn, llefydd yn hytrach na phobl sy'n methu ar gyfalaf cymdeithasol, er y gall unigolion hefyd fanteisio arno. Mae'r ail gysyniad, sef budd preifat, yn edrych ar gyfalaf cymdeithasol fel ased sydd gan unigolion o ganlyniad i'r rhan y maent yn ei chwarae mewn perthnasoedd cymdeithasol. Yr ail gysyniad hwn yw'r un y mae gennym ni ddiddordeb ynddo yma, lle mai pobl yn hytrach na llefydd sy'n meddu ar gyfalaf cymdeithasol. Gan mai cynnyrch perthnasoedd ag eraill yw'r cyfalaf cymdeithasol hwn, mae'n wir, unwaith y byddai unigolyn wedi peidio â bod yn aelod o'r grŵp, y byddai'r cyfalaf cymdeithasol i'r unigolyn hwnnw hefyd yn crebachu. Mae aelodaeth o grŵp yn agwedd hanfodol o'r cysyniad o gyfalaf cymdeithasol. Canfu Whiteley (2000) hefyd fod cyfalaf cymdeithasol yn ddylanwad pwysig ar berfformiad economaidd.

3.4 Broceriaid a Chyfryngwyr

Mae LSDA (2002) yn awgrymu bod dulliau o ymdrin â datblygu sgiliau yn cael eu rhoi ar waith mewn dwy ffordd, h.y. un ai drwy ddefnyddio broceriaid neu gyfryngwyr. Mae pob un o'r dulliau y manylir arnynt yma yn defnyddio broceriaid ac mae rhai hefyd yn defnyddio cyfryngwyr.

- Cyrff yw **broceriaid** y mae eu rôl yn aml yn cael ei hysgogi gan bolisi (un ai eu polisi hwy neu bolisi'r llywodraeth). Mae'r cyrff hyn mewn safle pwysig rhwng darpar ddysgwyr neu ddysgwyr bregus a darparwyr addysg. Mae rhai yn gyrff statudol, yn cael eu noddi gan y llywodraeth, tra bo eraill yn fudiadau annibynnol a gwirfoddol sy'n hyrwyddo dysgu. Maent yn tueddu i fod yn gyrff cyhoeddus, neu ar y ffin gyhoeddus–breifat.

- Gall **cyfryngwyr** fod yn unigolion sy'n gweithredu fel mentoriaid neu arweinwyr i ddysgwyr. Weithiau mae'r ail grŵp ynghlwm wrth y grŵp cyntaf. Weithiau, athrawon a rhieni ydynt, er nid fel arfer. Mae cyfryngwyr o'r fath yn aml yn bobl sy'n cael eu disgrifio fel pobl 'garismatig', gan eu bod yn gwneud yn fawr o'r potensial i newid, yn ymddangos ar yr adeg iawn i alluogi unigolion i dyfu. Gallant fod yn hyfforddwyr pêl-droed, yn athrawon TG, yn frwd dros yr hyn y maent yn ymddiddori ynddo, yn gredinwyr crefyddol, yn grefftwyr, beirdd, cymdogion da neu hyd yn oed yn ddieithriaid llwyr y mae eu 'dyfodiad' i fywyd unigolyn yn gadael argraff barhaol. Weithiau maent yn gyfoedion sydd wedi newid cyfeiriad eu bywydau eu hunain.

**4 Ffyrdd o Ddatblygu Sgiliau**

Gellir grwpio'r ffyrdd posibl yn fras i'r rheini a ariannir gan y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Fodd bynnag, fel y dengys yr enghreifftiau, mae sawl dull yn defnyddio sawl ffynhonnell ariannu ac yn gweithredu ar ffurf partneriaeth gydgysylltiedig. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Groundwork yn defnyddio arian o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, cwmnïau preifat a chyrff gwirfoddol eraill. Rhoddir crynodeb o dair ffordd ar ddeg o weithredu yma a cheir enghreifftiau o brosiectau a pheirianweithiau cyflwyno i ymhelaethu ar bob un yn Atodiad I.

| | |
|---|---|
| **Y Sector Cyhoeddus** | **Y Gronfa Ddysgu i Oedolion a Chymunedau (ACLF)**<br>**Gwirfoddolwyr y Mileniwm**<br>**Y Gronfa Cynnal Cymdogaethau**<br>**Y Fargen Newydd i Gymunedau**<br>**Dysgu drwy Wasanaeth**<br>**Cronfa Ddysgu'r Undebau** |
| **Y Sector Preifat** | **Busnes yn y Gymuned**<br>**Y Gwasanaeth Carchardai**<br>**Grwpiau Sector** |
| **Y Sector Gwirfoddol** | **Ymddiriedolaeth Groundwork**<br>**Tiwtora gan Gymheiriaid**<br>**Ymddiriedolaeth y Tywysog**<br>**Y Sector Gwirfoddol** |

Mae'r tair ffordd ar ddeg hon o weithredu wedi cael eu crynhoi isod. Fel y dengys yr enghreifftiau, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn anelu at gyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo *a* phontio. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn y dull a ddefnyddiwyd gan y Gronfa Cynnal Cymdogaethau lle deuir â throseddwyr ifanc ynghyd yn Tower Hamlets. Deuir â'r bobl ifanc hyn ynghyd i rwymo'r gymuned ynghlwm wrth yr amgylchedd allanol ac i gwrdd â phobl eraill nad oeddent yn adnabod ei gilydd cyn hynny (cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio). Eto i gyd mae'r bobl ifanc hyn i gyd yn debyg i'w gilydd o ran agweddau a diddordebau, gan eu bod wedi bod yn droseddwyr a'u bod erbyn hyn yn ymddiddori mewn cerddoriaeth (cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo).

## ACLF

Sefydlwyd y Gronfa Ddysgu i Oedolion a Chymunedau (ACLF) gan yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth gydag amrywiaeth eang o nodau a fwriadwyd i hyrwyddo gweithgareddau dysgu yn y gymuned. Er mwyn gwireddu'r nodau hyn, ceisiodd y Gronfa gomisiynu prosiectau a oedd yn arloesol, yn gynaliadwy ac yn meithrin perthnasoedd effeithiol. Roedd yr ACLF yn unigryw yn y ffordd y câi ei rheoli. Roedd NIACE a BSA ill dau yn gyfrifol am gomisiynu a rheoli'r prosiectau a oedd wedyn yn darparu cymorth parhaus ac yn monitro hynt y prosiectau wrth i'w gweithgareddau fynd rhagddynt. Roedd darparwyr prif ffrwd yn fwy tebygol o gynnig offer TG neu ddeunyddiau cwrs, tra'r oedd grwpiau gwirfoddol yn fwy tebygol o gynnig cymorth personol.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

**Cyfryngwyr**

## Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Menter i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, a ariannir gan y Llywodraeth, yw Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Mae'r gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli amser i helpu eraill gan ddefnyddio sgiliau sydd ganddynt yn barod a meithrin rhai o'r sgiliau y mae cyflogwyr yn gweld gwerth ynddynt, megis gweithio fel rhan o dîm, dysgu datrys problemau a datblygu'r gallu i weithredu o'u pen a'u pastwn eu hunain. Mae'r rhai sy'n cwblhau 200 awr o weithgaredd gwirfoddol mewn blwyddyn yn derbyn Dyfarniad Rhagoriaeth, wedi'i lofnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau. Mae 200 awr yn golygu llawer iawn o ymroddiad – felly hefyd 100 awr a ddynodir â Dyfarniad wedi ei lofnodi gan y Gweinidog dros Ddysgu a Phobl Ifanc.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Y Gronfa Cynnal Cymdogaethau (NSF)

Mae'r NSF yn ariannu sawl asiant rheoli, sydd rhyngddynt yn gyfrifol am oddeutu 650 o brosiectau cymunedol mewn 40 o'r awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Wedi'u targedu at bobl ifanc rhwng 13 a 19 oed, eu nod yw datblygu a gwella hyder a sgiliau'r bobl ifanc, fel y gallant oresgyn y rhwystrau sy'n llestair rhag iddynt ddysgu a chael gwaith.

Mae yna dri Asiant Rheoli sy'n gweinyddu'r gronfa ar ran yr Adran: The Community Development Foundation, y National Youth Agency, a'r Learning Alliance (sy'n cynnwys pedair elusen o bwys, NACRO, Rathbone CI, CSV a'r YMCA).

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Y Fargen Newydd i Gymunedau

Nod y Fargen Newydd i Gymunedau yw pontio'r bwlch rhwng rhai o'r ardaloedd tlotaf a gweddill y wlad drwy ganolbwyntio adnoddau ar gymdogaethau bach, difreintiedig a gweithio gyda chynlluniau eraill o fewn y cymdogaethau hynny. Anogir pobl leol, mudiadau cymunedol a gwirfoddol, asiantaethau cyhoeddus, awdurdodau lleol a busnes i weithio mewn partneriaeth i gyflawni newid o bwys drwy drosi dyheadau pobl leol yn weithredu. Wedi'i thargedu dros y 10 mlynedd nesaf, mae rhaglen y Fargen Newydd i Gymunedau yn datblygu strategaeth leol i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, llawn bywyd.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Dysgu drwy Wasanaeth

Arf addysgol (a elwir hefyd yn Ddysgu yn y Gymuned) yw Dysgu drwy Wasanaeth, lle mae'r gymuned yn dod yn bartner yn y broses ddysgu neu mewn dysgu drwy brofiad. Yn ôl Prentice a Garcia (2000), math o ddysgu drwy brofiad yw dysgu drwy wasanaeth lle caiff anghenion dysgu academaidd a galwedigaethol eu paru â gwasanaeth i'r gymuned. Canolbwyntir yn llwyr ar ddarparu profiad gwaith i'r myfyriwr sydd hefyd o fudd i'r gymuned. Mae i'r dull hwn lawer o fanteision, megis dangos y cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer. Mae dysgu drwy wasanaeth yn ffordd o gydweithio a chyfathrebu ag asiantaethau a buddianwyr eraill. Gall y broses gydweithrediadol hon gyfrannu at angen ehangach y gymuned i feithrin gallu cymdeithasol, fel y'i diffiniwyd gan Putnam (1993).

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Broceriaid**

## Cronfa Ddysgu'r Undebau

Cronfa a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yw Cronfa Ddysgu'r Undebau. Mae wedi ei bwriadu i hyrwyddo ac atgyfnerthu gweithgaredd gan yr Undebau Llafur i hybu amcan y Llywodraeth o greu Cymdeithas sy'n Dysgu Gydol Oes. Mae'r gronfa wedi ei bwriadu i gefnogi gweithgaredd effeithiol a chynaliadwy gan Undebau Llafur a'u partneriaid i hyrwyddo Dysgu Gydol Oes yn ei ystyr ehangaf, er mwyn llunio strategaeth ar gystadleugarwch, cyflogadwyedd a chynhwysiant. Gall yr Undebau Llafur, mewn partneriaeth ag o leiaf un corff arall, gael cyllid gan y Gronfa drwy wneud cais i ariannu prosiectau a fydd yn darparu cynllun tymor hir i wella proffil sgiliau eu haelodau.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Busnes yn y gymuned

Mae Busnes yn y Gymuned yn fudiad unigryw a chanddo 700 o gwmnïau, sydd wedi ymrwymo i wella eu heffaith gadarnhaol ar gymdeithas yn barhaus, yn aelodau ohono. Elusen annibynnol yw a'i nod yw "creu budd cyhoeddus drwy weithio gyda chwmnïau er mwyn gwella effaith gadarnhaol busnes o fewn cymdeithas". Fel corff sy'n cael ei arwain gan fusnesau a chanddo 189 o gwmnïau yn perthyn i dimau arwain sy'n datblygu arferion busnes cyfrifol, hwn yw'r corff cenedlaethol mwyaf o'i fath yn y DU gyda'r gallu i drosi polisi cwmnïau yn weithredu lleol. Gyda'i gilydd mae'r cwmnïau sy'n aelodau ohono yn cyflogi dros 15.7 miliwn o bobl mewn mwy na 200 o wledydd ledled y byd. Yn y DU mae eu haelodau yn cyflogi 1 o bob 5 gweithiwr yn y sector preifat.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Y Gwasanaeth Carchardai

Nod y Gwasanaeth Carchardai yw sicrhau gwelliant gwirioneddol a pharhaol yn nysgu a sgiliau carcharorion a hynny tra bônt yn y carchar ac yn y cyfnod tyngedfennol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Caiff hyn ei gyflawni drwy bartneriaeth strategol newydd rhwng yr Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Gwasanaeth Carchardai, yn gweithio gyda'r holl asiantaethau allweddol yn cynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i hyrwyddo cydlyniad yn y polisi addysg a hyfforddiant a ddatblygir i garcharorion sy'n oedolion a'r rheini sydd o dan 18 oed. Nod y bartneriaeth fydd sicrhau bod carcharorion, ym mha le bynnag y maent, a waeth beth fo eu statws personol, yn ennill y sgiliau, y cymwysterau a'r priodweddau sy'n ofynnol er mwyn dal swydd ac ailsefydlu eu hunain yn y gymuned a helpu, drwy hynny, i dorri'r cylch o aildroseddu parhaus.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Broceriaid**

## Grwpiau Sector

Mae'r sector amaethyddol yn dal yn enghraifft dda o sut y gall busnesau ac unigolion ddod at ei gilydd i ddatblygu'r anghenion sgiliau o fewn eu cymuned. Caiff Lantra ei drwyddedu gan lywodraeth y DU i yrru agenda sgiliau, hyfforddiant a datblygu busnes newydd y sector yn ei blaen. Mae Cofrestr Broffesiynol Lantra yn fodd amhrisiadwy o gael gafael ar gronfa o ymarferwyr cymorth hyfforddiant a busnes. I unigolion, Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC) yw pennaeth corff sy'n cwmpasu'r DU gyfan gyda dros 700 o Glybiau Ffermwyr Ifanc wedi'u gwasgaru ledled Cymru a Lloegr. Mae'r grwpiau hyn yn ymroi i gefnogi pobl ifanc ym maes amaethyddiaeth ac yng nghefn gwlad drwy weithgareddau datblygu sgiliau a gweithgareddau cymdeithasol. Mae 20,000 o bobl ifanc rhwng 10 a 26 oed yn aelodau ohonynt. Yr NFYFC felly yw'r mudiad ieuenctid cefn gwlad mwyaf o'i fath.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Broceriaid**

**Cyfryngwyr**

## Ymddiriedolaeth Groundwork

Ffederasiwn o Ymddiriedolaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw Groundwork, pob un yn gweithio gyda'i bartneriaid mewn ardaloedd tlawd i wella ansawdd yr amgylchedd lleol, bywydau pobl leol a llwyddiant busnesau lleol. Mae pob Ymddiriedolaeth Groundwork yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a chanddi ei bwrdd ymddiriedolwyr ei hun. Mae'r Ymddiriedolaethau yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a'r cynulliadau cenedlaethol, yr awdurdodau lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol a busnesau ac maent hefyd yn cael cymorth gan yr Undeb Ewropeaidd, y Loteri Genedlaethol, y cynllun credyd treth claddu sbwriel, noddwyr preifat a sefydliadau elusennol. Diben Groundwork yw "creu cymunedau cynaliadwy drwy weithredu amgylcheddol ar y cyd". Ac, yn benodol, creu cyfleoedd i bobl ddysgu sgiliau newydd a gweithredu'n lleol. Mae'r Ymddiriedolaethau yn helpu pobl sy'n ddi-waith i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad drwy weithio ar brosiectau adfywio yn eu cymdogaeth eu hunain, yn gynnwys hyfforddiant amgylcheddol drwy raglen Bargen Newydd y Llywodraeth.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Tiwtora gan Gymheiriaid

Y syniad fod pobl yn haddysgu eu hunain ac eraill am fater penodol e.e. pobl ifanc yn addysgu pobl ifanc eraill am faterion addysg rhyw, cyffuriau a gadael cartref, yw Tiwtora gan Gymheiriaid (neu addysg gan gymheiriaid). Mae'r broses hyfforddi yn aml yn rhoi ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth i'r rhai sy'n cymryd rhan ynghyd â rhoi hwb i'w hyder a rhoi iddynt nifer o sgiliau penodol megis sgiliau cyflwyno, gwaith tîm a chynllunio. Mae llawer o gwmnïau a busnesau preifat a mudiadau yn y sector gwirfoddol wedi manteisio ar diwtora gan gymheiriaid. Gyda'r sector gwirfoddol y mae'n fwyaf poblogaidd gan ei fod wedi ei seilio ar yr egwyddor mai gwirfoddolwyr yn y gymuned yw'r rhai sy'n addysgu cymheiriaid.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

**Cyfryngwyr**

## Ymddiriedolaeth y Tywysog

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 1976 gan Dywysog Cymru i helpu pobl ifanc (16 i 25 oed) i wireddu eu potensial. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu'n brif elusen ieuenctid y DU, yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd yn cynnwys hyfforddiant, datblygiad personol, cefnogaeth cychwyn busnes a chyngor.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

## Y Sector Gwirfoddol

Mae mudiadau sector gwirfoddol yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau gwirfoddol eraill, cyrff llywodraeth a busnesau. Mae ystod eu gweithgareddau yn eang ac yn cynnwys rhoi rhaglenni a ariennir gan y Llywodraeth, megis y Fargen Newydd i'r Sector Gwirfoddol a Chyswllt Gwledig, ar waith ynghyd â gweithgareddau ac atebion mwy lleol.

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo**

**Cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio**

**Broceriaid**

**Cyfryngwyr**

**5 Amrywiaeth**

Fel y pwysleisia Taylor (2000) 'mae'n rhaid i'r cwricwlwm datblygu cymunedol ddechrau o'r ddealltwriaeth hanfodol fod gormes ar sail dosbarth, hil, rhyw, anabledd, oed a thueddfryd rhywiol yn ganolog i'n cymdeithas ar hyn o bryd'. Er enghraifft, awgrymwyd gan Pahl (1970) fod pobl dosbarth canol yn fwy tueddol o wirfoddoli neu berthyn i fudiadau ffurfiol na phobl dosbarth gweithiol neu bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Â Pahl yn ei flaen i awgrymu bod cymunedau dosbarth gweithiol yn fwy drwgdybus o ffurfioli a'u bod yn tueddu i osgoi ffurfioldeb. Yn fwy diweddar dangosodd Arolwg Dinasyddiaeth y Swyddfa Gartref (2002) fod pobl Asiaidd a Tsieineaidd fymryn yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli neu gymdeithasol. Tra bo cyfranogiad o du aelodau o gymunedau Du yn uchel drwyddo draw, o rannu'r ffigyrau yn ôl rhyw gwelir bod menywod du yn fwy tebygol o gymryd rhan na dynion du. Nid yw'n syndod gweld bod y grwpiau oed iau (16-24) yn fwy tueddol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol na phobl hŷn. Nododd yr arolwg hefyd fod pobl yn fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd yn ymwneud â chwaraeon/ymarfer corff (33%), hobïau (24%), crefydd (18%), addysg plant (16%), addysg oedolion (12%) neu grwpiau cymunedol (11%). Daw'r arolwg i'r casgliad fod pobl yn cyfranogi yn eu cymunedau i raddau sylweddol a bod y cyfranogi hwn yn amrywio yn ôl oed, rhyw, grŵp ethnig ac amddifadedd cymharol yr ardal.

Fodd bynnag, fel y dengys McGivney (2000), y grwpiau sydd wedi eu hallgáu fwyaf ym maes addysg a hyfforddiant yw'r rheini sy'n fwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys pobl a fu'n ddi-waith dros gyfnod hir, pobl ar gyflogau isel, pobl â sgiliau llythrennedd gwael, y rhai sydd heb unrhyw gymwysterau, rhai grwpiau ethnig, rhieni unigol, gofalwyr amser llawn, pobl hŷn, cyn droseddwyr, pobl ag anableddau, pobl ag anawsterau dysgu, pobl ar incwm isel, pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl ddigartref a cheiswyr lloches neu fewnfudwyr y mae angen iddynt ddysgu Saesneg yn aml fel eu hangen dysgu cyntaf. Mae McGivney yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth, hyder neu adnoddau materol ac ariannol hefyd yn gallu rhwystro pobl rhag manteisio ar gyfleoedd i ddysgu tra bo eraill efallai yn credu nad yw dysgu yn berthnasol iddynt hwy. Gall diffyg adnoddau materol (diweithdra neu fod yn rhiant unigol), ffactorau ideolegol (hiliaeth, anabledd, gwrywdod llywodraethol) neu ffactorau seicolegol (diffyg symbyliad, ofn methu) effeithio'n andwyol ar y rhwystrau sy'n llestair rhag dysgu neu rhag cymryd rhan

mewn gweithgareddau cymunedol.  Mae'r ffactorau hyn yn fwy perthnasol i rai pobl a chymunedau nag eraill.

Mae Cornwall (2001) yn crynhoi hyn drwy awgrymu bod yna ddau fath o gymuned:

- **Cymunedau llewyrchus** a nodweddir gan gyfran uchel o drigolion sydd wedi cael addysg dda, sydd â chymwysterau da, sy'n fedrus, yn weithgar yn economaidd, yn cael cyflogau da, yn iach ac sydd, ar yr cyfan, yn parchu'r gyfraith o fewn rheswm ac yn hunanddibynnol.
- **Cymunedau difreintiedig** lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn fwy tebygol o fod heb sgiliau sylfaenol, eu bod heb wneud yn dda yn ystod eu cyfnod o fewn addysg orfodol, nad oes ganddynt ond ychydig gymwysterau os oes ganddynt rai o gwbl, fod eu sgiliau yn isel neu'n amherthnasol, eu bod yn dioddef cyfnodau hir o ddiffyg gweithgarwch economaidd, yn byw mewn tlodi ac afiechyd, yn dioddef ansawdd bywyd sy'n cael ei ddifetha gan fandaliaeth, troseddu a/neu'r ofn o ddioddef troseddau yn eu herbyn ac yn dioddef y sarhad o gael ei stigmateiddio drwy "ragfarn codau post" .

Tra'n cydnabod na fydd pob cymuned yn disgyn un ai i'r model o gymuned lewyrchus neu'r model o gymuned ddifreintiedig, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith ei bod yn fwy tebygol y bydd ein hymdrechion i ddatblygu sgiliau yn cael eu cynnal o fewn cymunedau sy'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig. Yn yr un modd, mae angen i ni gydnabod na fydd gan bob unigolyn sy'n byw o fewn cymuned ddifreintiedig yr holl nodweddion na hyd yn oed rai o'r nodweddion y tynnir sylw atynt gan Cornwall. Mae'r manteision cymdeithasol a all ddod i gymuned o ganlyniad i ddulliau datblygu sgiliau yn eang. Maent yn cynnwys cynnydd o ran ffyniant, gwell ac iachach ansawdd bywyd, gwell amgylchedd ac economi fwy cynhyrchiol a llwyddiannus.

**6 Crynodeb**

Efallai fod y llu o ddulliau sydd wedi cael eu cyflwyno yma yn ymddangos yn ffordd ddryslyd a di-drefn o fynd i'r afael â materion sgiliau ar lefel y gymuned. Fodd bynnag, er mwyn rhoi sylw priodol i faterion amrywiaeth, mae angen nifer o ddulliau ac ymdriniaethau. Ac fel a nodwyd gan Mohan a Mohan (2002), mae a wnelo cyfalaf cymdeithasol ag unigolion yn ogystal â chymunedau. Mae gan unigolion wahanol ffyrdd o ddysgu, lefelau sgiliau, cefndiroedd ac amgylchiadau. Rhaid nodi mai'r Sector Gwirfoddol (fel y grŵp mwyaf amrywiol o gyrff) sy'n cynnig y ffordd fwyaf hyblyg o ymdrin â datblygu sgiliau, gan ddefnyddio cyfryngwyr a broceriaid a defnyddio dulliau cyfalaf cymdeithasol sy'n pontio ac yn rhwymo. Efallai mai'r hyblygrwydd hwn sydd i gyfrif pam mai prosiectau gan y sector gwirfoddol sy'n cael y croeso mwyaf yn y gymuned ac sydd yn aml yn fwyaf llwyddiannus.

**7 Materion Allweddol**

Mae nifer o bwyntiau allweddol yn codi o'r adolygiad hwn o'r ffyrdd sy'n bodoli i ymdrin â datblygu sgiliau o fewn cymunedau.

- Defnyddir ffurfiau cyfalaf cymdeithasol sy'n rhwymo ac yn pontio gan danlinellu'r pwynt allweddol fod datblygu sgiliau yn gallu digwydd rhwng pobl sy'n adnabod ei gilydd yn barod a rhwng pobl nad ydynt ond yn dod ynghyd i wireddu nod penodol, ac yn wir fod hynny yn digwydd yn llwyddiannus.

- Caiff y dulliau i gyd eu rhoi ar waith drwy froceriaid. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y broses o sicrhau cyllid yn aml yn cynnwys gweithdrefnau biwrocrataidd cymhleth y mae'n anodd i gyrff a chyfryngwyr bach eu deall. Yn ogystal, efallai nad yw llawer ohonynt yn ymwybodol o fodolaeth y gwahanol ffynonellau ariannu hyn. Mae'r rhain fwyaf o beirianweithiau cyflenwi (e.e. cyfrifon banc) gan froceriaid yn barod tra nad yw hynny'n wir am gyfryngwyr. Efallai fod yna enghreifftiau o atebion sydd wedi'u seilio'n llwyr ar gyfryngwyr. Fodd bynnag, oherwydd natur eu menter, nid yw'r grwpiau hyn yn aml yn gallu rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w gweithgareddau ac nid ydynt felly yn hysbys y tu hwnt i'w cymuned eu hunain.

- Lle defnyddir cyfryngwyr ar y cyd â broceriaid, mae pobl a mudiadau o'r gymuned leol yn hynod effeithiol yn denu dysgwyr newydd ac yn grymuso'r gymuned a'i chyfranogwyr.

- Gwirfoddol yw'r gweithgareddau yn y gymuned i gyd ac maent wedi eu gwreiddio yn amgylchiadau dysgwyr lleol.

- Mae dulliau lluosog ac amrywiol yn darparu cyfle cyfartal ac amrywiaeth o brosiectau datblygu sy'n diwallu anghenion amrywiol.

- Mae llawer o'r dulliau yn cynnig darpariaeth datblygu sgiliau rhad ac am ddim, neu ddarpariaeth y rhoddir cymhorthdal tuag ati, i'r rheini sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso a ddiffiniwyd tra bo'r dulliau nad ydynt yn rhad ac am ddim yn cynnig cyfraddau gostyngol i aelodau. Mae'r cyfraddau rhad ac am ddim a gostyngol yn llwyddiannus gan fod y penderfyniad i godi tâl neu beidio yn dibynnu mwy ar y grŵp cleientiaid dan sylw nag ystyriaethau ariannol yn unig.

- Mae llawer o'r dulliau yn penderfynu'n gyntaf pa ddarpariaeth datblygu sgiliau sy'n ofynnol ac yna'n ceisio achrediad i'r gweithgareddau hynny. Mae'n ymddangos bod gweithredu fel hyn yn llwyddo'n well i ysgogi dysgwyr na cheisio ffitio cyrsiau sy'n bodoli'n barod i lwybr dysgu penodedig.

- Mae llawer o'r dulliau yn defnyddio'r un ffynonellau cyllido ac mae hynny'n tanlinellu'r ffaith fod cyllid yn brin.

**8 Ymchwil Pellach**

Argymhellir mai'r meysydd mwyaf buddiol ar gyfer ymchwil pellach fyddai:

- Ymchwilio i faterion arwyddbostio a dysgu dilynol. Sut mae llwybrau rhwng gwahanol fathau a lefelau o ddysgu yn cael eu ffurfio ac i ble mae pobl yn mynd pan fyddant wedi cwblhau rhywfaint o ddatblygu sgiliau yn llwyddiannus?

- Ymchwilio i anghenion y bobl fwyaf difreintiedig gan ganolbwyntio ar bobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. A yw anghenion y grwpiau hyn yn cael eu diwallu'n llwyr ac yn ddigonol gan y dulliau hyn?

- Mynd ati i gynnal adolygiad cynhwysfawr o broffilio cymunedol a'r atlas o waith amddifadedd unwaith y bydd y rhain wedi cael eu cwblhau yn 2004.

**Atodiad I: Enghreifftiau o Ddulliau o Ymdrin â Datblygu Sgiliau yn y Gymuned**

## Y Gronfa Ddysgu i Oedolion a Chymunedau(ACLF)

Cynigiwyd amrywiaeth o gymorth i'r rhai oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau gyda dros 80% o brosiectau yn darparu deunyddiau cwrs yn rhad ac am ddim, dros 50% yn talu'r costau teithio, ychydig llai na 50% yn darparu cyfarpar TG ac oddeutu 45% yn darparu gofal plant. Cafwyd tystiolaeth yn yr astudiaethau achos a werthuswyd am ddilyniant dysgwyr unigol, boed hynny i ddysgu pellach neu i ganlyniadau cadarnhaol eraill, megis cyfrannu o'r newydd fel dinasyddion gweithredol.

Canolbwyntiai trigain y cant o brosiectau ACLF ar weithgareddau yn ymwneud ag anghenion sgiliau sylfaenol. Canolbwyntiai hanner cant y cant o'r prosiectau ar godi pontydd a fyddai'n fodd i gamu i fyd dysgu. Roedd tua 33 y cant yn gweithio ar sgiliau cyfrifiadurol a/neu sgiliau perthnasol i waith a/neu waith cymunedol.

Fairplay, Birmingham

Nod prosiect Fairplay, a oedd yn cael ei gynnal gan yr elusen genedlaethol Fairbridge, oedd ennyn diddordeb pobl ifanc o'r newydd mewn dysgu tra'n datblygu eu sgiliau sylfaenol ar yr un pryd. Mae canghennau Fairbridge i gyd wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol difreintiedig a chaiff cleientiaid Fairbridge i gyd eu cyfeirio oddi wrth amrywiaeth o asiantaethau lleol, megis unedau ailsefydlu i bobl â phroblemau cyffuriau, asiantaethau lles addysg ac ysgolion, y gwasanaeth prawf a thimau troseddwyr ifanc. Cwrs mynediad pum diwrnod yw'r profiad cyntaf i'r rhai sy'n cymryd rhan – mae'n cynnwys taith antur dros dir gwyllt sydd wedi'i bwriadu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth ac annog gweithio fel tîm. Caniataodd cyllid ACLF Fairbridge hefyd i gyflwyno gweithgaredd dysgu wedi'i seilio ar gymryd rhan mewn tîm pêl-droed. Anogwyd unigolion i ddod yn rhan o Fairplay fel un o'u gweithgareddau dysgu cychwynnol o fewn profiad Fairbridge yn ei gyfanrwydd. Rhagwelid y byddai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn aros am ychydig wythnosau/misoedd cyn symud ymlaen i brofiadau dysgu mwy dwys (e.e. prosiectau busnes Dysgu Ennill neu gyrsiau sgiliau TG). Y dysgwyr oedd yn gyfrifol am reoli'r tîm ac am drefnu gemau yn erbyn timau ieuenctid lleol eraill. Talai ACLF am y dillad pêl-droed a'r cyfleusterau hyfforddi ac roedd aelod staff yn cael ei ddarparu i oruchwylio'r prosiect.

Bridge-Over Mardyke, Rainham, Essex

Caiff prosiect Bridge-Over Mardyke ei reoli gan Learning Freeway, sef coleg addysg oedolion Bwrdeistref Havering. Mae'r prosiect wedi ei leoli yn Mardyke, ystâd ddifreintiedig yn Essex gyda lefelau uchel o ddiweithdra. Mae'r diffyg cludiant cyhoeddus cyfleus yn gwneud yr amddifadedd hwn yn waeth, gan ei fod yn ynysu'r ystâd a'r gymuned sy'n byw yno. Yn 1999 amcangyfrifwyd bod angen addysg sgiliau sylfaenol ar tua 80% o'r bobl oedd yn byw yno. Mae llawer o'r tai yn dai cyngor a cheir nifer uchel o rieni unigol a grwpiau eraill sydd ar gyrion cymdeithas, e.e. cyn droseddwyr a ffoaduriaid.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o gyllid (ACLF, SRB, Cronfeydd Safonau a'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach), agorwyd Fflat Ddysgu ar yr ystâd ym mis Ebrill 2000. Agorwyd ail fflat, gydag ystafelloedd TG, yn ddiweddarach. Roedd y rhain yn

darparu lle yng nghanol y gymuned, lle gallai pobl fanteisio ar gyfleoedd dysgu heb orfod gadael yr ystâd. Mae'r cyrsiau i gyd am ddim a darperir gofal plant hefyd, rhan bwysig o'r prosiect a'r prif reswm am ei lwyddiant. Mae'r cyrsiau i gyd wedi eu hachredu, ac maent yn cynnwys Saesneg, mathemateg, TG, blodeuwriaeth, tylino'r corff ac aromatherapi, diet a maeth, a dinasyddiaeth. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal prosiectau dysgu teuluol mewn llythrennedd, rhifedd a chyfrifiadura, i helpu rhieni a'u plant i ddysgu gyda'i gilydd. Mae Rhaglen Llysgennad wedi dechrau hefyd, lle mae'r dysgwyr yn mynd allan i'r gymuned i hyrwyddo'r prosiect ac annog eraill i ymuno. Mae'r llysgenhadon, fel y tiwtoriaid, yn deall safbwyntiau ac anghenion y bobl sy'n byw ar yr ystâd.

## Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Mae yna dros 200 o brosiectau GM ar draws pob rhanbarth o Loegr. Mae'r mwyafrif o fewn y sector gwirfoddol ond mae tua un rhan o bump ohonynt yn cael eu rhedeg gan gyrff sector cyhoeddus (colegau, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau ysbyty). Mae asiantau datblygu yn gweithio gyda ac yn datblygu grwpiau llai, yn y gymuned e.e. Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol, Gwirfoddolwyr Gwasanaethau Cymuned a Materion Cymunedol. Mae'r prosiectau hynny sydd o fudd i'r gymuned megis hyfforddiant chwaraeon, materion amgylcheddol, arweinyddiaeth ieuenctid, cerddoriaeth a dawns yn boblogaidd.

<u>Becky</u>
Mae Becky yn uchelgeisiol, yn benderfynol ac yn gwirioni ar bêl-droed. Nid yw erioed wedi dymuno gwneud dim byd ond bod yn hyfforddwr pêl-droed ond roedd llawer o rwystrau yn ei hwynebu a phrin oedd y cyfleoedd i ddatblygu ei diddordeb. Roedd ar fin rhoi'r gorau i'w breuddwyd pan glywodd am Wirfoddolwyr y Mileniwm. Dros nos rhoddodd GM gyfle i Becky roi hyfforddiant pêl-droed i bobl ifanc rhwng 7 a 15 oed yn AFC Bournemouth. Yn gynnar yn 2000, enillodd le fel hyfforddwr pêl-droed yn America lle bu'n gweithio gyda channoedd o bobl ifanc am dri mis ochr yn ochr ag aelod o Dîm Pêl-droed Cenedlaethol UDA. Mae'n teimlo na fyddai wedi gallu manteisio ar y cyfle hwn oni bai am yr hwb a gafodd ei hunanhyder oherwydd GM. Ar ôl dychwelyd o'r UDA cynigiwyd swydd fel Hyfforddwr Datblygu Ieuenctid iddi gydag AFC Bournemouth lle bydd yn gallu darparu'r cyfleoedd y bu mor anodd iddi hi eu canfod i fenywod ifanc eraill. Ym mis Mawrth 2000, derbyniodd Becky Wobr Cymdeithas Fyw wedi ei llofnodi gan y Prif Weinidog mewn cydnabyddiaeth o'i chyfraniad neilltuol i'r gymuned. Mae hefyd wedi cwblhau 200 awr o wirfoddoli fel un o Wirfoddolwyr y Mileniwm gan dderbyn Dyfarniad Rhagoriaeth oddi wrth David Blunkett, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd. Cafodd Becky ei dewis yn destun un o'r hysbysebion yn ymgyrch hysbysebu genedlaethol Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

<u>Dan</u>
Mae Dan yn 23 a daeth yn GM ym mis Mawrth 2000 fel yr oedd yn dod i ddiwedd ei gwrs gradd. Gwyddai ei fod am weithio ym maes cadwraeth ond nid oedd ganddo brofiad ymarferol ac roedd yn poeni na allai gael y swydd iawn hebddo. Dechreuodd Dan wirfoddoli drwy helpu i adeiladu rhaeadr mewn gardd theatr. Roedd yr ardd yn cynnwys ardal a gâi ei defnyddio i weithio gyda phobl anabl. Roedd Dan yn gyfrifol am blannu perlysiau a blodau a fyddai'n dwysáu synhwyrau pobl nad ydynt yn gallu mwynhau gweld na chlywed. Wrth i'w sgiliau a'i allu gynyddu, dechreuodd wneud mwy o weithgareddau megis ymgymryd â gweithdai ymarferol a oedd yn golygu cloddio pyllau, plygu gwrychoedd a chodi waliau cerrig sych. Roedd tîm rheoli'r prosiect mor falch o weld mor frwdfrydig oedd fel ei fod yn gweithio'n rhan-amser yn y swyddfa erbyn hyn. Mae eisoes wedi cwblhau 100 awr o wirfoddoli ac yn bwrw ymlaen yn gyflym tuag at y 200 er mwyn iddo gael ei Ddyfarniad Rhagoriaeth. Bellach mae Dan a'i fryd ar yrfa ym myd cadwraeth ac mae'n teimlo bod y cyfrifoldeb a'r ymddiriedaeth a gafodd o du rheolwyr y prosiect wedi gwneud iddo sylweddoli yr hyn y gall ei wneud.

## Y Gronfa Cynnal Cymdogaethau (NSF)

Mae'r NSF yn cefnogi prosiectau lleol sy'n rhoi'r hyder i bobl ifanc i fynd i addysg brif ffrwd neu gyflogaeth. Mae'r gronfa yn cefnogi gweithgareddau megis hyfforddiant mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd, gweithgareddau ysgogi mewn meysydd fel y celfyddydau, chwaraeon ac aml-gyfrwng, cyfleoedd awyr agored a phreswyl, prosiectau hybu iechyd a hunanddelwedd, cymorth gyda CVs, chwilio am waith a chyfweliadau, a phrosiectau hostelau a phrosiectau ar batrwm 'foyer'.

Tower Hamlets

Ymysg y bobl ifanc a ddewiswyd i lansio cronfa "Plug into Music" y Sefydliad Cenedlaethol dros Gerddoriaeth Pobl Ifanc yn y Weinyddiaeth Sain, roedd dau fachgen o Tower Hamlets a oedd wedi treulio amser yn y carchar ac a gâi eu hystyried gan yr heddlu lleol yn arweinwyr mewn unrhyw ddrwgweithredu. Gadawodd y ddau ddyn ifanc y carchar a chawsant eu cyfeirio at brosiect cerddoriaeth CDF/CEDC NSF gan ddau weithiwr maes. Ffurfiasant eu band rap eu hunain ac ar ôl cael llwyddiant o hynny maent wedi dewis aros gyda'r prosiect fel gweithwyr ieuenctid iau dan hyfforddiant. Mae'r prosiect Addysg Gymunedol Anffurfiol Annibynnol (DICE) yn cael cyllid gan NSF ac mae'n gysylltiedig â Chanolfan Gymunedol Alpha Grove yn Tower Hamlets. Mae'n gweithio gyda throseddwyr ifanc a'r rheini y mae perygl iddynt droseddu ac mae'n datblygu strategaeth diogelwch yn y gymuned ar gyfer yr Isle of Dogs, ar y cyd â'r heddlu a'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

Hartlepool

Mae pum prosiect NSF a reolir gan NACRO yn Hartlepool yn dysgu mor bwerus yw gweithio gyda'i gilydd – ac mae yna fanteision i'r bobl ifanc hefyd. Gall diwylliant pobl ifanc yn Hartlepool fod yn diriogaethol ond mae llawer o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi gwneud ffrindiau o'r newydd gyda chyfoedion o rannau eraill o'r dref. Mae'r prosiectau yn cynnal digwyddiadau ar y cyd, yn amrywio o gystadlaethau pêl-droed pump bob ochr i sioeau talent, digwyddiadau preswyl a "Gemau Giamocs". Mae cyfarfodydd misol rheolaidd yn Asiantaeth Ddatblygu Wirfoddol Hartlepool yn help i gryfhau'r cyfeillgarwch. Caiff rhaglen fywiog o weithgareddau ei chynnal dros wyliau'r haf, yn cynnwys digwyddiad "murder mystery" tridiau, digwyddiadau preswyl, ymweliad â Middlesborough FC i gael hyfforddiant pêl-droed a thaith dywys o amgylch stadiwm Riverside. Drwy'r NSF, mae'r gweithwyr erbyn hyn yn meithrin cysylltiadau â phrosiectau eraill o'r gogledd ddwyrain. Mae hyn i gyd yn help i oresgyn y teimladau o fod wedi'u hynysu y gall prosiectau unigol eu hwynebu – ac mae'n gyfle i rannu profiadau.

Northbourne Street

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau CDF/CEDC NSF wedi'u lleoli'n bendant yng nghanol eu cymuned. Un grŵp o'r fath yw Northbourne Street Forum. Caiff ei redeg gan y bobl ifanc eu hunain, sy'n cwrdd i drafod y materion sy'n codi o ganlyniad i fyw ar eu hystâd. Maent wedi gallu cwrdd â chynghorwyr lleol a swyddogion i leisio eu barn am waith dymchwel arfaethedig yn eu strydoedd. Maent hefyd yn cael hwyl, gyda sesiwn DJ, cyrsiau trampolîn a hyfforddiant cymorth cyntaf. Bu'r prosiect yn llwyddiannus iawn yn denu pobl ifanc, menywod yn arbennig, a dyna oedd y bwriad gwreiddiol. Mae 40 o bobl ifanc ar y prosiect (dwbl y targed). Mae perthynas pobl â'i gilydd ar yr ystâd yn agos iawn – mewn un digwyddiad preswyl sylweddolodd un fenyw ifanc ei bod yn perthyn mewn rhyw ffordd i bobl ifanc eraill yno. Mae'r

agosrwydd hwn a'r diffyg cysylltiadau allanol yn gwneud y prosiect yn bwysicach fyth i'r bobl ifanc hyn.

## Y Fargen Newydd i Gymunedau (NDC)

Tra bo'r problemau yn amrywio o ardal i ardal, mae'r Fargen Newydd i Gymunedau yn ymdrin â phedair prif thema: mynd i'r afael â diweithdra, gwella iechyd, mynd i'r afael â throseddu a gwella cyraeddiadau addysgol.

NDC Gorllewin Canol Hartlepool

Hyfforddiant Gofal Plant

Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant gofal plant sylfaenol i fenywod sy'n byw yn ardal y prosiect. Bydd yr hyfforddiant yn arwain at hyfforddiant achrededig pellach mewn gofal plant ar lefel 3 NVQ a gallai arwain at waith. Disgwylir i'r trigolion ennill cymhwyster ar lefel sylfaenol a disgwylir i'r hyfforddiant gynnwys cymorth cyntaf a hylendid bwyd sylfaenol, a fyddai'n ofynnol pa bai'r person yn gweithio mewn sefydliad gofal plant swyddogol. Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant gofal plant am ddim gyda chrèche/gofal plant rhad ac am ddim. Bydd hyn o fudd arbennig i'r rhieni hynny na allent fforddio talu am ofal plant, a allai fod yn rhwystr iddynt ddychwelyd i astudio ac effeithio ar eu gobaith o gael gwaith yn y dyfodol.

Prosiect Lleiafrifoedd Ethnig

Bydd yn darparu adnodd staff pwrpasol i annog meithrin gallu a grymuso o fewn cymuned lleiafrifoedd ethnig yr ardal NDC. Mae'r prosiect yn golygu bod modd cyflogi gweithwyr allweddol ar amryw o weithgareddau datblygu mewn ymateb i'r galw a fynegwyd gan y gymuned lleiafrifoedd ethnig. Mae'n darparu arian refeniw ar gyfer cyflogau staff, yr hyfforddiant a'r costau rhedeg (cafodd costau cyfalaf sefydlu'r ganolfan adnoddau eu cefnogi gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol a sawl ymddiriedolaeth elusennol arall). Mae dwy o'r swyddi rhan-amser yn swyddi Gweithwyr Datblygu sy'n gweithio'n ddwys gyda'r gymuned lleiafrifoedd ethnig i sefydlu rhaglen o weithgareddau ac ystod o wasanaethau i ateb anghenion lleol. Caiff y prosiect ei gyd-drefnu a'i reoli gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr.

NDC West Ham a Paislow

Cwrs Hyfforddiant Sgiliau Pêl-droed

Mae trigolion NDC yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs sgiliau pêl-droed a gynhelir gan hyfforddwyr pêl-droed West Ham United. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal mewn tri lleoliad gwahanol - Chadd Green Cage, Lister Gardens Park a Chanolfan Ieuenctid Woodlands. Neilltuir amseroedd cofrestru gwahanol i'r gwahanol leoliadau (gweler isod). Caiff y Cwrs hwn ei gynnal gan hyfforddwyr pêl-droed West Ham United.

Cwmni Theatr Kai-Zen

Mae Cwmni Theatr Kai-Zen yn dysgu ystod o sgiliau celf megis sgiliau theatr/drama, dawns, sgiliau telynegol/perfformio, barddoniaeth, cynllunio gwisgoedd a llawer mwy, a hynny'n rhad ac am ddim.

Hyfforddiant TG

Yn ysgol Portway, y lleoliad ar gyfer blwyddyn beilot y rhaglen, bu'r rhai a fu'n cymryd rhan a'r trigolion lleol yn dathlu blwyddyn o ddosbarthiadau TG, magu plant a Saesneg. Derbyniasant dystysgrifau a rhoddion diolch oddi wrth y tîm NDC. Mae Ysgol Portway wedi cynnig cyrsiau Cyfrifiadura i Ddechreuwyr, Dysgu Dysgu gyda'ch Plant, Magu Plant a Saesneg ers mis Medi 2001 fel rhan o raglen 'Gwe Gymuned Eang' NDC. Mae

dros 150 o drigolion wedi cymryd rhan yn y cyrsiau ac mae llawer wedi mynd ymlaen i gael gwaith neu i wella'u sgiliau ar gyfer swyddi newydd.

## Dysgu drwy Wasanaeth

Dull a ddatblygwyd yn yr UDA yw Dysgu drwy Wasanaeth lle mae colegau a phrifysgolion yn ymgorffori math arbennig o ddysgu yn eu cwricwlwm.

<u>Dysgu drwy Wasanaeth ym maes Meddygaeth Academaidd ac Iechyd y Tlodion yn Washington, D.C.</u>

Mae SCHAMESS et al (2000) yn egluro sut y dechreuodd sawl canolfan feddygol academaidd yn Washington, D.C., ar raglenni dysgu drwy wasanaeth a leolai fyfyrwyr proffesiynau iechyd mewn clinigau cymunedol a oedd yn gwasanaethu pobl heb yswiriant. Cafodd y model dysgu drwy wasanaeth ei gynnig fel ffordd o sicrhau bod myfyrwyr israddedig a myfyrwyr a oedd wedi graddio yn dod i gysylltiad â phoblogaethau amrywiol o safbwynt ethnig a chymdeithasol tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol yn y gymuned. Gyda chymorth grant sefydlu bach, mae llawer o ysgolion meddygol wedi creu rhaglenni dysgu drwy wasanaeth i'w treialu, sy'n lleoli myfyrwyr ar safleoedd cymunedol. Mae i raglenni dysgu drwy wasanaeth y potensial i weithredu fel cynlluniau sy'n torri tir newydd. Maent yn tynnu'r myfyrwyr a'r gyfadran allan o derfynau'r brifysgol ac yn eu gosod, yn gorfforol, mewn sefydliadau cymunedol.

<u>Dysgu drwy Wasanaeth yn y cwricwlwm meddygol yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Kentucky</u>

Cyflwynodd ELAM et al (2002) fodel dysgu drwy wasanaeth yn Kentucky am eu bod yn credu'n bendant fod llawer o fyfyrwyr yn mynd i ysgol feddygol am eu bod yn dymuno gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill. Er bod ysgolion meddygol yn llwyddo'n eithaf i roi'r wybodaeth fiofeddygol a'r sgiliau clinigol sy'n ofynnol i fod yn feddygon cymwys i fyfyrwyr, dylid rhoi mwy o sylw i feithrin ymwybyddiaeth myfyrwyr o iechyd y cyhoedd drwy weithgareddau maes yn y gymuned. Wrth ystyried anghenion gofal iechyd y cyhoedd a'r angen cysylltiol i roi i feddygon y sgiliau i gymryd rhan mewn gweithgareddau maes yn y gymuned a'u harwain, mae'n bwysig cynyddu sgiliau cydweithio, cyfathrebu a gwaith tîm myfyrwyr meddygol. Yn hytrach na chael myfyrwyr unigol yn gweithio ar wahân mewn asiantaethau unigol, roedd grwpiau bach o fyfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd gydag un asiantaeth. Câi nodau cwrs, amcanion a gweithgareddau clir eu gosod i'r myfyrwyr ynghyd ag amserlenni a rheolau graddio a chredydau y cwrs.

## Cronfa Ddysgu'r Undebau

Mae Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru yn hyrwyddo a datblygu cyfleoedd dysgu yn y gweithle i'w holl aelodau. Mae'r ffocws ar alluogi aelodau i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth a all roi mwy o sicrwydd iddynt yn eu swyddi ynghyd â gwell cyfleoedd, gan ei gwneud yn haws i aelodau gyrchu at ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ac allweddol.

Dyma rai o'r ceisiadau llwyddiannus i Gronfa Ddysgu'r Undebau:

- Bydd gweithwyr gwaith gwau, esgidiau a dillad yn Yeovil yn cael canolfan ddysgu ar y safle a fydd wedi ei chysylltu â'r coleg lleol.
- Bydd prosiect yn Nyffryn Ouse yn galluogi gweithwyr graffeg a phapur i fanteisio ar hyfforddiant drwy rwydwaith lleol o gynrychiolwyr dysgwyr.
- Yn East Anglia, caiff cynrychiolwyr dysgu eu recriwtio i hyrwyddo cyrsiau sgiliau sylfaenol a TG mewn cynllun sydd hefyd yn cynnwys aelodau teuluol.
- Datblygu canolfan actorion yn y Gogledd Ddwyrain ymhellach er mwyn gwella'r cyfleoedd cyflogaeth a dysgu.

PCS – Menywod mewn Swyddi Rheoli

Partneriaeth oedd y prosiect hwn rhwng PCS Cymru, Dysgu Drwy'ch Oes, Prifysgol Caerdydd a phum cyflogwr sector sifil a chyhoeddus o Dde Ddwyrain Cymru. Y symbyliad i fynd ati i ddatblygu'r prosiect oedd safle menywod o fewn y farchnad lafur yng Nghymru ac yn y gwasanaethau sifil a chyhoeddus yng Nghymru. Nodai'r ystadegau a gasglwyd gan swyddfa'r cabinet fod tri dyn mewn swyddi gradd weithredol uwch am bob un menyw a bod y ffigyrau'n saith i un mewn swyddi rheoli uwch er bod dwywaith cymaint o fenywod ag o ddynion mewn swyddi ar raddau gweinyddol a chlercaidd. Cynnig y prosiect oedd datblygu cwrs hyfforddi i fenywod ar raddau clercaidd a gweinyddol gyda'r nod o roi iddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i fwrw ymlaen i ddatblygu eu gyrfa, a darparu llwybr er mwyn iddynt ddechrau ar astudiaethau academaidd, ffurfiol, o'r newydd ar lefel Addysg Uwch.

UNSAIN, Y DU

Ar ôl rhywfaint o waith peilot, daeth UNSAIN i gytundeb cenedlaethol gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) yn 1996 i gyflenwi cyrsiau Dychwelyd i Ddysgu (R2L) yn genedlaethol i aelodau UNSAIN. Câi'r cyrsiau R2L eu targedu at y rheini a oedd yn debygol o fod wedi bod o dan anfantais yn y gyfundrefn addysg cyn hyn, yn cynnwys menywod, gweithwyr du, gweithwyr rhan-amser, gweithwyr ar gyflogau isel a gweithwyr llaw. Roedd nifer y myfyrwyr yn cynyddu'n ddi-baid a daeth yn amlwg y gallai'r cyrsiau ehangu ymhellach o lunio trefniadau partneriaeth gyda'r cyflogwyr.

Mae'r bartneriaeth gyda chyflogwyr wedi golygu bod y cyrsiau erbyn hyn yn agored i bawb o'r staff, nid dim ond aelodau UNSAIN; un o sgîl-effeithiau hyn fu cynyddu ymwybyddiaeth y staff o rôl UNSAIN. Mae'r cyrsiau wedi helpu'r rhai sy'n cymryd rhan, a oedd yn aml yn ei chael hi'n anodd manteisio ar hyfforddiant yr oedd y cyflogwyr yn ei ddarparu, i fagu'r hyder i ddelio â'r newidiadau cyflym y mae'n rhaid ymdopi â hwy yn y rhan fwyaf o weithfannau'r sector cyhoeddus. Un nodwedd bwysig o'r cyrsiau R2L yw eu ffocws ar ddatblygiad personol – gan alluogi'r myfyrwyr i ddarganfod a thrin gwybodaeth mewn ffyrdd newydd a'i gwerthuso'n

feirniadol. Mae hyn yn cynyddu hunanhyder y myfyrwyr a'u gallu i fwrw ymlaen i ddysgu ymhellach. Mae gan UNSAIN gyfundrefn o gyfleoedd, a ddarperir gan ei Goleg Agored, sydd wedi ei threfnu'n ofalus mewn haenau. Mae myfyrwyr hefyd wedi symud ymlaen i gyfleoedd eraill a ddarperir gan y cyflogwyr megis NVQs. Un o'r egwyddorion a fabwysiadwyd i'r cyrsiau partneriaeth oedd y dylai'r cyrsiau gael eu cynnal yn ystod amser gwaith gyda'r myfyrwyr yn gwneud aseiniadau yn eu hamser eu hunain. Mae hynny'n golygu rhai anawsterau posibl o ran denu pobl i'r cyrsiau, ac mae angen monitro hynny a mynd i'r afael ag anawsterau wrth iddynt godi.

## Busnes yn y gymuned

Mae Busnes yn y Gymuned yn gweld cysylltiad clir rhwng iechyd cwmni a pha mor broffidiol yw a lles cyffredinol y gymuned y mae'n gwneud busnes ynddi. Mae'n fanteisiol i'r busnes weithredu mewn cymunedau sydd ag ysgolion da a lle mae pobl yn byw mewn amgylchedd iach, cynhaliol. Mae anghenion rhai cymunedau yn codi problemau nad oes modd i'r llywodraeth eu datrys ar ei phen ei hun. Gall sgiliau ac adnoddau'r sector preifat ddarparu'r ysgogiad i helpu llawer o'r cymunedau hyn.

### Scottish Power Learning

Mae ScottishPower wedi ymrwymo'n gryf i egwyddor dysgu gydol oes. Mae ScottishPower Learning yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd dysgu i bobl sy'n byw yn y cymunedau a wasanaethir ar draws y DU. Mae ScottishPower Learning, estyniad o raglen Dysgu Agored y cwmni, yn cynnig y cyfle i weithwyr a'u teuluoedd fanteisio ar oddeutu 1,000 o raglenni dysgu. Mae ScottishPower Learning wedi defnyddio ei sgiliau a'i adnoddau i greu cyfleoedd dysgu i bobl yn y cymunedau y mae yn eu gwasanaethu, yn enwedig ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd. Lansiwyd Dysgu Agored yn 1993 fel rhan o ymrwymiad y cwmni i ddysgu gydol oes i'w weithwyr a'u teuluoedd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys mynediad hwylus at 1,000 a mwy o gyrsiau datblygu sy'n berthnasol i waith a chyrsiau datblygu personol, yn amrywio o gyfrifiadura, cyllid a rheoli, i bynciau technegol, gwasanaethau cwsmeriaid ac ieithoedd. Mae'r atebion dysgu "cyfun" a gynigir yn cynnig darpariaeth astudio gyda chymorth mewn Canolfan Dysgu Agored a thrwy hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth a hyfforddiant galwedigaethol, tra bo opsiynau astudio unigol ar gael drwy Fannau Mynediad ac e-ddysgu wrth ddesg neu o'r cartref. Yn ogystal, gall gweithwyr sydd wedi ymddeol, teuluoedd gweithwyr a grwpiau cymunedol dethol gerllaw y Canolfannau Dysgu Agored hefyd fanteisio ar y ddarpariaeth.

### Banc Barclays: Pobl ag anabledau

Yn 2001 gwnaeth Barclays ymrwymiadau newydd sylweddol i ddau brosiect newydd ar gyfer pobl anabl. Neilltuodd £1.69 miliwn dros dair blynedd ar gyfer prosiect newydd cyffrous gyda'r RNID: Together IT Works. Mae'r prosiect hwn yn datblygu cwrs hyfforddiant TG sydd wedi ei achredu'n llawn i bobl fyddar, sydd ag un o'r cyfraddau diweithdra uchaf yn y DU. Bydd y cwrs yn helpu pobl fyddar a thrwm eu clyw i ennill y sgiliau TG y mae eu hangen arnynt i gystadlu yn y farchnad swyddi. Bydd y cyllid yn help i sicrhau'r arbenigedd sy'n ofynnol i ddatblygu technegau hyfforddi, yn ogystal â meddalwedd arbenigol a deunyddiau hyfforddi. Mae Barclays hefyd yn darparu £1.29 miliwn dros dair blynedd o 2001 i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) i sefydlu Talk & Support. Gwasanaeth cymorth a chwnsela dros y ffôn yw hwn i bobl sydd newydd gael eu cofrestru yn ddall neu'n rhannol ddal, gan gynnig cyngor ymarferol a chyfeillgarwch drwy'r cyfnod anodd hwn yn eu bywydau.

<u>Transco Green Futures</u>

O ganlyniad i'r bartneriaeth ddeinamig hon rhwng Ymddiriedolaeth Groundwork a Transco, mae bron i 500 o'r bobl ifanc sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn gymdeithasol yn edrych ymlaen at ddyfodol teilwng. Sefydlwyd y rhaglen ar y cyd gan Groundwork a Lattice a welodd y byddai gwaith adfywio amgylcheddol, lleol ei natur, oedd yn gwella rhagolygon cyflogaeth rhai o'r bobl ifanc sydd wedi eu hallgáu fwyaf yn gymdeithasol yn y wlad, yn dod â budd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol enfawr. Telir £120 yr wythnos ar gyfartaledd i'r rhai sy'n cymryd rhan a chânt eu hyfforddi hyd at Lefel 2 NVQ. Maent yn gweithio ar ystod o gynlluniau, yn cynnwys tirlunio a garddwriaeth, effeithlonrwydd ynni ac ailgylchu cynnyrch/gwastraff. Mae'r rhaglen yn helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i gael gwaith parhaol. Mae buddsoddiad Lattice a Transco o £1 filiwn yr un, ynghyd â'r amser a'r adnoddau sylweddol sy'n cael eu cyfrannu gan eu gweithwyr, wedi helpu i ddenu £14 miliwn ychwanegol i gyd ar ffurf grantiau UE a grantiau eraill o du'r Llywodraeth, yn ogystal â buddsoddiadau eraill o'r sector preifat. Mae Transco Green Futres, cynllun sy'n cael ei gefnogi gan Sefydliad Lattice, yn rhaglen dair blynedd a lansiwyd gan y Prif Weinidog yn 1999. Ei diben pennaf yw gwella perfformiad opsiwn Tasglu'r Amgylchedd o dan y Fargen Newydd i bobl ifanc ddi-waith rhwng 18 a 24 oed. Mae'r bartneriaeth yn dangos bod modd i gyflogwyr sy'n gyfrifol yn gymdeithasol gefnogi amcanion polisi cyhoeddus a gwireddu amcanion busnes ynghyd â manteision i'r gymuned ehangach.

<u>ICL: Cyberskills</u>

CyberSkills yw'r enw ar raglen ICL i fynd i'r afael â phroblemau diffyg darpariaeth TG drwy sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn y gymuned a'u bod yn cael profiad ymarferol ohonynt. Mae'r rhaglen yn darparu gweithdai sy'n dangos manteision posibl defnyddio technolegau megis y Rhyngrwyd, e-bost, cynadledda fideo a chynadledda data i unigolion, nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth na phrofiad blaenorol. Erbyn hyn mae CyberSkills yn cael ei gydnabod fel model sydd wedi ennill ei blwyf gan ei fod yn gwneud unigolion yn fwy cyflogadwy ac yn hybu adfywio cymunedol, yn ogystal â dangos fel y gall TG helpu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Darparodd ICL help i'r ganolfan gyntaf, sef Rhwydwaith Dysgu De Bryste a sefydlwyd yn 1993, drwy ddarparu gofod swyddfa, technoleg a chyngor a chyfarwyddyd. O'i gyfuno â grant Her gan y Cynghorau Hyfforddiant a Menter o dan yr Adran Addysg a Chyflogaeth, bu'r ganolfan yn fodd, yn y lle cyntaf, i 55 o bobl a oedd wedi bod yn ddi-waith dros dymor hir i ddysgu sgiliau TG; llwyddodd 25 ohonynt i gael gwaith parhaol o ganlyniad uniongyrchol i hynny. Erbyn hyn mae dros 100,000 o bobl wedi elwa o fynychu gweithdai CyberSkills, ac mae mwyafrif ohonynt wedi mynd yn eu blaen i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn cael gwaith, hyrwyddo eu haddysg neu eu gyrfa, helpu i wneud eu cwmnïau yn fwy cystadleuol, neu wella ansawdd eu bywydau eu hunain. Mae nifer y Canolfan CyberSkills a'r Canolfannau Cysylltiol (canolfannau maes) y cynhelir gweithdai ohonynt wedi cynyddu, er 1993, i bron i gant.

## Y Gwasanaeth Carchardai

Byddir yn adeiladu ar y cynlluniau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Carchardai gyda'r nod, dros amser ac fel y bydd adnoddau yn caniatáu, o gyflwyno addysg a hyfforddiant mewn carchardai mewn modd cydlynus, a fydd yn codi'r safonau cyrhaeddiad ymysg y rhai sydd â lleiaf o gymwysterau ac yn hyrwyddo dilyniant at sgiliau uwch ar bob lefel. Y nod pennaf o reidrwydd yw sicrhau bod mwy o garcharorion yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol ar gyfer gwaith a bydd dysgu sy'n hyrwyddo datblygiad personol yr unigolyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r cwricwlwm. Bydd y Gwasanaeth Carchardai yn integreiddio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a gynigir gyda darpariaeth y llyfrgelloedd, hyfforddiant galwedigaethol a gweithdai diwydiant, ynghyd ag addysg gorfforol, er mwyn darparu cyfleoedd newydd i ehangu'r posibiliadau a'r symbyliad i garcharorion i ennill ystod eang o sgiliau perthnasol. Ei nod yw adeiladu ar y cysylltiadau presennol gyda'r sector gwirfoddol a chyda busnes a diwydiant er mwyn darparu cyfleoedd pellach i wella'r rhaglenni dysgu a sgiliau a mynediad at waith.

<u>Y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Cyflogi: hyfforddi menywod ar gyfer gwaith yn Low Newton</u>

Saif carchar menywod Low Newton yn agos at Durham, ardal sydd â diweithdra uchel. Mae lefelau sgiliau a chymwysterau y rhan fwyaf o'r carcharorion yn wael ac nid yw llawer ohonynt erioed wedi gweithio. Un maes gwaith sy'n datblygu yn y rhanbarth yw canolfannau galwadau. Mae adran addysg y carchar yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflogi yn lleol a'i nod yw hyfforddi menywod yn barod ar gyfer gwaith pan fyddant yn gadael y carchar. Mae tiwtor sydd â phrofiad helaeth o reoli canolfannau galwadau wedi cynnal cwrs llwyddiannus, a achredwyd gan City and Guilds, yn arwain at NVQ mewn Gwaith Canolfannau Galwadau. Mae nifer o'r menywod sy'n garcharorion wedi ennill cymwysterau ac wedi cael gwaith mewn canolfannau galwadau lleol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

<u>Y Gwasanaeth Cyflogi, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf: O Fudd-dâl i Waith yn y carchar</u>

Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn bartner yng nghynllun O Fudd-dâl i Waith y Llywodraeth, sy'n anelu at helpu pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed a fu'n ddi-waith dros gyfnod hir i gael gwaith. Mae deuddeg coleg, yn cynnwys Glen Parva mewn partneriaeth â choleg addysg bellach Mathew Boulton, yn cymryd rhan mewn peilot i wneud carcharorion ifanc yn fwy cyflogadwy, er enghraifft drwy gael y budd mwyaf posibl o raglen y Porth o dan y Fargen Newydd pan gânt eu rhyddhau. Mae dros 1,500 o garcharorion wedi cwblhau'r rhaglen hyd yma gan ennill 6 thystysgrif yr un ar gyfartaledd, ac mae gan dri chwarter ohonynt gyfweliad wedi ei drefnu ymlaen llaw iddynt gyda'r Ganolfan Waith cyn iddynt gael eu rhyddhau.

## Grwpiau Sector

Ar draws Cymru mae yna ddwsinau o grwpiau sector, rhai ohonynt yn rhan o'r rhwydwaith Sgiliau Sector ac eraill wedi eu trefnu ar sail wahanol. Mae amaethyddiaeth yn un sector sydd â hanes hir o gydlyniad cymunedol a rhannu amcanion.

### LANTRA

Ar hyd a lled y DU mae oddeutu 400 o ddarparwyr hyfforddiant wedi cofrestru gyda Lantra. Maent yn amrywio o unigolion i gwmnïau preifat bach i golegau lleol a sefydliadau addysg uwch. Mae GRWP HYFFORDDIANT SAFFRON WALDEN yn enghraifft nodweddiadol. Mae'r Grŵp yn cynnal amryw o gyrsiau hyfforddi yn bennaf ar gyfer diwydiannau gwledig lleol yng Ngogledd Orllewin Essex a De Swydd Caergrawnt. Mae ganddo dros 50 o aelodau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o weithgareddau gwledig. Mae'r Grŵp hefyd yn cynnig hyfforddiant i rai nad ydynt yn aelodau a gellir trefnu pob cwrs un ai yn y gweithle neu mewn lleoliadau lleol eraill.

### Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC)

Caiff Clybiau Ffermwyr Ifanc eu cynnal gan aelodau ar ran aelodau ac maent yn darparu cyfle unigryw i bobl ifanc fwynhau bywyd cymdeithasol deinamig, datblygu sgiliau, ymwneud â'r gymuned leol, teithio dramor a chymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau ar lefel sirol, rhanbarthol a lleol, yn cynnwys chwaraeon, crefftau a sgiliau byw. Mae cyrsiau hyfforddi'r Clybiau Ffermwyr Ifanc yn rhannu i'r categorïau isod:

- Sgiliau cadwraeth
- Sgiliau cefn gwlad
- Sgiliau Celfyddydau Addurniadol
- Sgiliau adloniant
- Sgiliau Crefftau Cartref
- Sgiliau TG
- Sgiliau iaith
- Sgiliau Datblygiad Personol

## Ymddiriedolaeth Groundwork

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Groundwork gyntaf 21 mlynedd yn ôl ar Lannau Mersi. Erbyn hyn ceir dros 45 o Ymddiriedolaethau yn y DU ynghyd â nifer o brosiectau Groundwork yn Nwyrain Ewrop. Mae dulliau Groundwork wedi cael eu mabwysiadu hefyd yn Japan ac UDA lle mae Gwasanaeth y Parciau Cenedlaethol yn cefnogi nifer gynyddol o Ymddiriedolaethau.

Mae llawer o'r Ymddiriedolaethau yn sefydlu 'marchnadoedd llafur canolradd' sy'n talu cyflog i brentisiaid tra bônt yn gweithio ar amrywiaeth eang o weithgareddau, o adeiladu llefydd chwarae newydd i adnewyddu tai sydd wedi mynd â'u pen iddynt. Maent yn helpu llawer o bobl i ddod o hyd i swyddi parhaol ac yn rhoi i eraill y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i sefydlu a chynnal eu busnesau amgylcheddol eu hunain.

Wolverhampton

Mae Groundwork yn helpu pobl ifanc ddi-waith i ddatblygu busnes newydd yn gwerthu cynnyrch coed wedi ei wneud allan o goed a dyfwyd yng Nghoedwig Drefol yr Ardal Ddu fel rhan o raglen i reoli coedlannau mewn modd cynaliadwy. Darparwyd cyllid sbarduno ar gyfer y busnes gan Gynllun Menter yr Ifanc, partneriaeth genedlaethol rhwng Groundwork a'r Royal Bank of Scotland.

Dwyrain Canolbarth Lloegr a De Swydd Efrog

Mae pobl a fu'n ddi-waith dros gyfnod hir yng nghymunedau'r meysydd glo wedi cael swyddi gyda hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol fel y gallant weithio i wella a chynnal eu hamgylchedd lleol. Drwy bartneriaeth genedlaethol gyda Transco cafodd nifer o'r cyfranogwyr swyddi parhaol fel gweithwyr dosbarthu nwy.

## Hyfforddiant gan Gymheiriaid

Mae mudiadau gwirfoddol sy'n ymboeni am les pobl ifanc yn aml yn defnyddio tiwtora gan gymheiriaid. Mae yna felly lawer o enghreifftiau o bobl ifanc yn tiwtora pobl ifanc eraill. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ddefnyddio hefyd o fewn cwmnïau lle defnyddir gweithwyr (h.y. oedolion) fel tiwtoriaid neu fentoriaid i weithwyr eraill.

### Prosiect Cyfranogi Rotherham (rhan o Gymdeithas y Plant)

Nod y prosiect yw datblygu sgiliau allweddol pobl ifanc drwy hyfforddiant. Ar ôl iddynt gael eu hyfforddi, mae'r bobl ifanc yn mynd rhagddynt i hyfforddi eraill a gwella cyfranogiad pobl ifanc o fewn eu cymunedau. Nod yr hyfforddi yw galluogi'r bobl ifanc i ddarparu hyfforddiant yn ymwneud â chyfranogiad pobl ifanc i gyrff, ac mae hefyd yn rhoi sgiliau ymdrin â phobl, profiad a hyder i'r bobl ifanc. Anogir pobl ifanc i ddod yn ymchwilwyr, yn fentoriaid i gymheiriaid ac yn gefnogwyr.

Mae'r Amgylchedd Addysg Cymheiriaid yn cynnwys rhaglen hyfforddi y gellir ei defnyddio neu ei haddasu i gymhwyso pobl ifanc yn eu rôl fel addysgwyr o fewn amgylchedd addysg cymheiriaid. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau y gall addysgwyr sy'n gymheiriaid eu defnyddio i addysgu pobl ifanc eraill am faterion amgylcheddol. Ar y cyd ag aelodau'r rhwydwaith YHA, darparwyr gwaith ieuenctid lleol a rhaglenni ymchwil a hyfforddi cenedlaethol, mae UK Youth yn dal i ddarparu a chefnogi gwaith ieuenctid ac addysg anffurfiol o safon uchel i dros 750,000 o bobl ifanc. Mae'r rhaglenni, y gwasanaethau a'r cyhoeddiadau wedi llwyddo i gyrraedd pobl ifanc mewn canolfannau ieuenctid, ysgolion, gofal maeth, carchardai a llawer o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol eraill. Drwy'r broses bwysig o ddysgu anffurfiol daw datblygiad personol, cymdeithasol a gyrfaol.

### Ability Online

System e-bost o Ganada yw hon sy'n cysylltu pobl ifanc ag anableddau neu salwch cronig â chyfoedion anabl a phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Mae'r rhwydwaith yn help i ddymchwel y rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu salwch drwy ddarparu cyfleoedd i feithrin cyfeillgarwch, magu hunanhyder, cyfnewid gwybodaeth, a rhannu gobaith ac anogaeth drwy negeseuon e-bost. Mae'r rhwydwaith hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am driniaeth feddygol, strategaethau addysgol a chyfleoedd gwaith i bobl ifanc anabl a'u teuluoedd drwy gefnogaeth cymheiriaid.

### Mentoriaid Ifanc Cenedl Gri Opaskwayak

Mae'r mentoriaid hyn, sydd rhwng 18 a 24 oed, i gyd yn frodorion ac wedi graddio o'r ysgol uwchradd. Maent yn ymgymryd â Hyfforddiant i Fentoriaid Ifanc ar eu gwarchodfa. Diben yr hyfforddiant yw eu galluogi i weithredu fel cwnselwyr i bobl ifanc yng ngwersyll newydd yr Youth Wilderness Camp. Dyma rai o'r dosbarthiadau sy'n cael eu dysgu gydol y flwyddyn: ysbrydolrwydd/meddyginiaethau/bwydydd traddodiadol, y Grïeg, arweinyddiaeth, hyfforddi, twf personol, cwnsela a mentora.

Cyd-fyfyrwyr Cyswllt Coleg Technegol Delaware

Myfyrwyr ail flwyddyn sydd wedi cael eu hyfforddi yw Cyd-fyfyrwyr Cyswllt Coleg Technegol Delaware ac maent yn helpu myfyrwyr eraill i lwyddo. Mae Cyd-fyfyrwyr Cyswllt yn helpu myfyrwyr i ymaddasu i fywyd coleg ac yn cynorthwyo'r staff cwnsela proffesiynol gyda gweithgareddau a rhaglenni sy'n berthnasol i addysg. Coleg cymunedol cyhoeddus dwy flynedd o ryw 3500 o fyfyrwyr yw hwn ac fel arfer ceir 10 arweinydd cyd-fyfyrwyr. Maent yn cael ysgoloriaeth siop lyfrau fach ($300) y tymor am gyfrannu 60 awr o wasanaeth yn ôl i'r rhaglen cyd-fyfyrwyr (sef rhyw 4 awr yr wythnos). Os yw myfyriwr yn gymwys o dan y gyfundrefn astudio-gwaith ffederal, cydnabyddir ei oriau fel cyd-fyfyriwr drwy'r cronfeydd hynny, nid y cronfeydd cyd-fyfyrwyr cyfyngedig. Mae cyd-fyfyrwyr yn helpu i recriwtio cyd-fyfyrwyr eraill ac mae argymhellion y cyfadrannau yn holl-bwysig yn y broses recriwtio a dethol.

## Ymddiriedolaeth y Tywysog

Mae dros 60,000 o bobl ifanc wedi gwella eu sgiliau a'r potensial iddynt gael gwaith drwy gyrsiau Gwirfoddolwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn targedu pobl rhwng 14 a 30 oed sy'n ddi-waith, mewn gofal neu'n gadael gofal, yn tangyflawni yn addysgol neu'n gyn-droseddwyr.

### Y Rhaglen i Wirfoddolwyr

Nod y cwrs 12 wythnos hwn yn datblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys adeiladu tîm, sgiliau perthnasol i waith, symbyliad a hyder. Mae'r rhaglen yn cynnwys cwrs preswyl wythnos tra bo gweddill yr amser yn cynnwys gwaith prosiect yn y gymuned. Mae'r rhaglen yn rhad ac am ddim ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol.

#### Eich clwb pêl-droed chi

Drwy berthynas tymor hir gydag Uwch Gynghrair yr FA, y Sefydliad Pêl-droed a Chymdeithas y Peldroedwyr Proffesiynol, mae'r Rhaglen i Wirfoddolwyr yn gallu manteisio ar gwrs datblygu personol 12 wythnos llawn her. Mae dros 45 o glybiau pêl-droed o'r Uwch Gynghrair a chynghrair y Nationwide yn cefnogi'r bobl a'r timau ar y cwrs i Wirfoddolwyr, mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael y cyfle i gael cyfarfodydd tîm ar safleoedd y clybiau, ymgymryd â lleoliad gwaith, cwrdd â chwaraewr neu'r rheolwr, cael mynd ar daith o amgylch y stadiwm neu fynd i gêm, tra'n dysgu sgiliau allweddol i'w helpu drwy fywyd ac i mewn i waith.

### Rhaglen Sound Live

Mae'r cwrs hwn yn meithrin doniau, sgiliau a hyder ac yn rhoi'r cyfle i weithio yn y busnes cerddoriaeth. Cwrs preswyl 6 diwrnod ydyw a'i nod yw datblygu doniau cerddorol a rhoi'r cyfle i weithio'n agos gyda cherddorion proffesiynol ac eraill ar y cwrs, yn magu sgiliau tîm a chyfathrebu. Mae'r cwrs wedi ei anelu at breswylwyr o'r DU rhwng 16 a 25 oed sy'n ddi-waith neu sydd â gwybodaeth sylfaenol o leiaf o offeryn.

## Y Sector Gwirfoddol

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn cynnwys oddeutu 30,000 o fudiadau, 1.8m o wirfoddolwyr ac 20,000 o staff sy'n weithgar ym mhob cymuned yng Nghymru.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
CGGC yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru, yn cynrychioli ac yn ymgyrchu ar ran mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru. Mae CGGC wedi rheoli Contract Opsiwn Sector Gwirfoddol y Fargen Newydd 18 – 24 yn llwyddiannus ar ran Canolfan Byd Gwaith am fwy na 3 blynedd. Ymysg amcanion Darpariaeth Lleoliadau Sector Gwirfoddol CGGC mae helpu pobl ifanc i ddod i ddeall rôl y sector gwirfoddol yn y gymuned a diweddaru eu sgiliau. Mae amrywiaeth eang o fudiadau o fewn y sector gwirfoddol yn darparu lleoliad profiad gwaith 6-mis y Fargen Newydd ac mae dros 1,400 o bobl ifanc wedi bod drwy gynllun lleoliadau CGGC. Mae CGGC yn cynnig dewis eang o leoliadau profiad gwaith i'r ‘Bargeiniwr Newydd'; maent i'w gweld yn gweithio mewn siopau, yn rhan o dîm mewn canolfannau Cyngor Ar Bopeth neu'n rhan o Bêl-droed yn y Gymuned yn dysgu sgiliau fel hyfforddwyr pêl-droed. Mae defnyddio TGCh a gofalu am anifeiliaid yn brofiadau eraill.

Cyswllt Gwledig
Nod Cyswllt Gwledig yw galluogi'r bobl hynny sy'n anweithgar yn economaidd ac yn byw mewn ardaloedd gwledig i allu manteisio'n llawn ar y farchnad lafur (leol), drwy ddarparu hyfforddiant o safon a chyfleoedd profiad gwaith gwirioneddol mewn ystod amrywiol o sgiliau sydd wedi'u seilio ar ddatblygu'r economi wledig. Mae'r prosiect yn cynnwys tri phartner: CGGC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Menter Coedwigaeth sy'n darparu'r arbenigedd rheoli a phrofiad gwledig helaeth er mwyn cyflawni amcanion y prosiect. Gall Cyswllt Gwledig gynnig amrywiaeth o swyddi sy'n datblygu sgiliau ac yn darparu hyfforddiant - mae modd trosglwyddo'r rhain wedyn i amrywiaeth eang o gyflogwyr. Mae'r cyfleoedd ar agor yn benodol i'r rheini sy'n byw mewn cymunedau gwledig oherwydd y problemau o gael eu hynysu rhag cyfleoedd swyddi a wynebir gan bobl yng nghefn gwlad. Mae'r cyfleoedd a ddarperir wedi'u seilio ar yr amgylchedd neu gadwraeth ac maent yn cynnwys sgiliau yn amrywio o weinyddiaeth a chyllid i'r sgiliau ymarferol a gwaith llaw sy'n ofynnol ar gyfer pob agwedd o reolaeth cefn gwlad; garddwriaeth a chynnal a chadw ystadau, sgiliau'r tir, rheoli coedwigoedd a choetiroedd. Mae Ymgynghorydd Lleoliadau unigol yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i'r hyfforddeion. Tra bônt ar leoliad, caiff yr hyfforddeion eu cyflogi gan CGGC ac maent yn cael cyflog (yr isafswm cyflog cenedlaethol); mae costau teithio a help gyda gofal plant ar gael hefyd.

Poplar
Bu ardal Poplar yn nwyrain Llundain yn dirywio'n raddol ers i'r dociau a diwydiannau eraill gael eu cau fesul tipyn dros y 30 mlynedd diwethaf. Cafodd grant o dros £230 miliwn ei fuddsoddi yn yr ardal i ddarparu sylfaen economaidd newydd ac adfer strwythur y gymdogaeth. Rhan o'r cynllun hwn yw sefydlu tîm datblygu cymunedol gyda chyfarwyddwr ar fwrdd pob ystâd. Nod y timau hyn yw datblygu gallu'r trigolion i gyfrannu tuag at y gwaith o reoli'r ardal a dysgu sgiliau newydd a ddylai fod yn help iddynt gael gwaith. Mae'r hyfforddiant a ddarperir mewn canolfannau lleol wedi ei gyfyngu i hyfforddiant sgiliau sylfaenol, a gyflenwir gyda help y coleg AB lleol. Caiff cyrsiau TG a Saesneg fel ail iaith eu hyrwyddo i'r gymuned ethnig gan y tîm drwy ddosbarthu taflenni, ffeiriau hyfforddi a chnocio ar ddrysau.

SWITCH- Cymru

Deilliodd y syniad ar gyfer Switch o sgwrs rhwng aelodau o'r gymuned Sicaidd ac Ymddiriedolaeth Scarman yn gynnar yn 2000. Roedd aelodau'r gymuned yn canfod bod pob math o rwystrau yn eu hatal rhag gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu oedd ar gael yn bennaf drwy gysylltiadau cyfrifiadur. Mewn cynllun unigryw cytunodd nifer o gymunedau i weithio gyda'i gilydd i ganfod ffyrdd o oresgyn y broblem – problemau a wynebir hefyd gan bobl ddigartref, rhai pobl anabl a theithwyr. Mae Switch Cymru yn cynnwys 16 o grwpiau cymunedol o Dde Caerdydd yn cynnwys BVSN - Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru, MEWN Cymru – Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, Cymuned Sicaidd Bhatra ac Ymddiriedolaeth Scarman (Cymru).

Mae Switch Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n llestair i'r gymuned rhag dysgu. Mae gan bob cymuned sy'n perthyn i'r cynllun ei chanolfan ei hun lle gellir cynnal gweithgareddau dysgu. Maent yn arbennig o awyddus ar yr un pryd i'w gwneud yn haws i bobl gyrchu at gyfrifiaduron ac ymgyfarwyddo â nhw. Mae gan bob canolfan gymunedol nifer fach o gyfrifiaduron wedi eu cysylltu drwy rwydwaith â gwefan Switch. Caiff dysgwyr gymorth gan wirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi ar bob safle ac mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn darparu cymorth tymor hir.

Mae Switch yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ITEC Caerdydd sy'n darparu cyrsiau hyfforddi byr rhad ac am ddim mewn canolfannau Switch allweddol – yr un Somalïaidd a MEWN Cymru – ac mae rhagor yn cael eu datblygu gyda BAWSO, y ganolfan Yemeni, y ganolfan Sicaidd a chanolfan y menywod Bangladeshaidd. Mae pob canolfan ym mhrosiect SWITCH yn cynnig learndirect. Cyrsiau modiwlaidd a gynigir, wedi'u rhannu'n ddarnau cryno o ddysgu yn amrywio o TG, Busnes a Rheoli i Sgiliau Bywyd (darllen, ysgrifennu a gweithio gyda rhifau). Mae rhai o'r cyrsiau am ddim, ac mae llawer iawn ohonynt yn rhesymol iawn eu pris.

Women into Community Health (WICH)

Cafodd y prosiect hwn ei ariannu am dair blynedd gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol i gynorthwyo menywod difreintiedig i wireddu potensial eu cymunedau o ran iechyd. Mae Womanise Health Matters, mudiad gwirfoddol sydd wedi ei leoli yn Leeds, yn seilio'r gwaith prosiect ar ddulliau datblygu cymunedol ac mae'n cynnwys hyfforddiant i fenywod lleol i fod yn hyrwyddwyr neu wirfoddolwyr iechyd cymunedol. Cynigir hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a meithrin hyder ac mae'n cynnwys menywod o bob sector o'r gymuned. Cafodd grwpiau eu sefydlu drwy waith maes a gwaith datblygu, gan adeiladu ar rwydweithiau lleol a chysylltu â menywod mewn ysgolion, canolfannau cymuned, grwpiau rhiant a phlentyn ayb. Ail ran y prosiect fydd talu am ddau weithiwr cyflogedig o grant gan y Gronfa Gymunedol.

Trimdon 2000

Sefydlwyd Trimdon 2000 Ltd fel mudiad gwirfoddol i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn Sir Durham. Yn ogystal â sefydlu Call Centres Durham (cwmni arloesol wedi ei wreiddio yn y gymuned) a chrèche cymunedol, y nodau penodol yw:

- Gwella rhagolygon gwaith a sgiliau pobl leol a gostwng y lefelau amddifadedd drwy hynny
- Cynorthwyo'r trigolion i wella eu gallu i gynhyrchu ac elwa o weithgarwch economaidd newydd yn yr ardal

Derbyniodd naw prosiect gyllid ERDF ac ESF a chafwyd arian cyfatebol o'r sector preifat. Crëwyd canolfan adnoddau mewn hen fflatiau un ystafell segur o eiddo'r cyngor a'r ganolfan honno oedd canolbwynt y cynllun. Roedd yn cynnwys lle i ddau fusnes cymunedol a dwy ystafell gyfarfod gymunedol. Penodwyd Cydlynydd Partneriaeth i hwyluso cynlluniau hyfforddi ac ymchwilio i gyfleoedd cyllido pellach. Cynigir hyfforddiant mewn sgiliau amgylcheddol, sgiliau adeiladu a sgiliau'r tir, gofal plant a sgiliau canolfannau galwadau. Mae'r hyfforddiant canolfannau galwadau yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol mewn gwaith canolfannau galwadau a gwarentir cyfweliad am waith mewn canolfan alwadau i'r sawl sy'n manteisio arno. Maent hefyd yn cael cynnig llwybrau dilyniant i mewn i swyddi eraill sy'n ymdrin â chwsmeriaid.

<u>Prosiect Achredu De Tyneside</u>

Nod y prosiect yw dod â chyfleoedd dysgu achrededig i boblogaeth y rhan ddifreintiedig hon o'r wlad. Sefydlwyd y prosiect achredu o ganlyniad i bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Addysg Cymuned a Ffederasiwn Cymdeithasau Cymunedol De Tyneside. Yn 1994 dechreuodd y prosiect achredu gyda'r nod o sicrhau achrediad i'r gweithgareddau a gynhelir yn y canolfannau cymuned ac mewn mudiadau gwirfoddol ledled y fwrdeistref. Fe'i hariannwyd gan Dasglu De Tyneside, Asiantaeth Ariannu o eiddo'r Llywodraeth, am gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 1994 a daeth y cyllid canolog i ben ym mis Mawrth 1997. Yn ystod yr oes dair blynedd hon bu ganddo dargedau penodol oedd wedi'u diffinio, sef:

- cynorthwyo darparwyr addysg gymuned i addasu'r ddarpariaeth, gan sicrhau cymwysterau cydnabyddedig i'r rhai oedd yn cymryd rhan;
- datblygu dulliau portffolio a dulliau eraill o achredu dysgu a phrofiad blaenorol;
- darparu cyrsiau achrededig lle nad oes rhai yn bodoli i ysgogi gweithgareddau addysg lleol a datblygu cyfleoedd addysgol cynaliadwy;
- annog mynediad a dilyniant i Goleg De Tyneside ac at ddarparwyr achrededig eraill.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar ddysgu yn y gymuned a dysgu anffurfiol. Mae'r canolfannau yn gweithredu fel man lle gall pobl ddi-waith alw heibio ac yn darparu cyfleusterau megis siop gwaith coed, uned bwrpasol ar gyfer trin ceir, ystafelloedd celf a chrefft, gweithgareddau cymorth dysgu dyddiol a chrèche, yn ogystal â chynnig lleoliad i gynnal rhaglenni Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a digwyddiadau eraill ynddo.

Dechreuodd y prosiect ddatblygu ei raglenni dysgu ei hun a'u cyflwyno i Ffederasiwn Coleg Agored Tyneside i gael eu hachredu. Gall y Ffederasiwn ddyfarnu credydau ar Lefel Mynediad neu Lefelau 1, 2 neu 3, ac mae rhifau'r lefelau yn cyfateb yn fras i lefelau NVQ. Gall rhaglen fod ag unrhyw nifer o credydau ynghlwm wrthi, yn dibynnu ar gyfanswm yr oriau o “ddysgu tybiannol” sy'n ofynnol. Mae hefyd yn bosibl i ddysgwyr gael eu heithrio rhag rhan neu'r cyfan o'r amser addysgu os gallant ddangos eu bod eisoes wedi magu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol o ddysgu neu brofiad blaenorol. Mae'r prosiect wedi ennill cydnabyddiaeth i 15 rhaglen drwy'r Ffederasiwn, yn amrywio o weinyddiaeth i adweitheg, ac yn cynnwys sgiliau tîm, rhaglen menter gymunedol breswyl i ddynion a rhaglen ar gyfer tiwtoriaid/aseswyr. Er enghraifft, enillodd Women’s Health in South Tyneside (WHIST) gydnabyddiaeth yn ddiweddar i raglen yn ymdrin â phendantrwydd a magu hyder. Mae un ganolfan

wedi ennill cydnabyddiaeth i raglen trin ceir sylfaenol ac mae eraill yn edrych ar bethau mor amrywiol â chydnabod llwyddiant pobl yn cadw'n heini.

**Cyfeiriadau**


Y Gronfa Ddysgu i Oedolion a Chymunedau (ACLF)
http://www.lifelonglearning.dfee.gov.uk/aclf/imp00.htm

Busnes yn y Gymuned
http://www.bitc.org.uk/communities.html

Coleman, J. S. (1988) Social Capital in the Creation of Human Capital, American Journal of Sociology, 94:S95-S120 yn Buerkle, K a Guseva, A. (2002) What do you know, who do you know? School as a site for the production of social capital and its effects on income attainment in Poland and the Czech Republic, Americal Journal of Economics and Sociology, Cyfrol 61, Rhif 3

Proffilio Cymunedol
www.ct.nrcs.usda.gov/powerpoint/community08.ppt

Cornwall, R. (2001) The relevance of Community Based Learning to strategies to eradicate social exclusion

Yr Adran Addysg a Sgiliau, y Gronfa Cynnal Cymdogaethau
http://www.dfes.gov.uk/nsf/index.shtml

Yr Adran Addysg a Chyflogaeth, Improving Prisoners Learning and Skills
http://www.lifelonglearning.dfee.gov.uk/ipls/index.htm

ELAM, C. L., MUSICK, D. W., SAUER, M. J. a SKELTON, J. (2002) How we implemented a service-learning elective, Medical Teacher, Cyfrol 24, Rhif 3, 2002, td. 249–253, Taylor & Francis Ltd

Field, J., Spencer, D., Tight, M., Blaxter, L., Byrd, P. a Merrill, B. (2002) Evaluation of the Adult and Community Learning Fund

Frazer (2002) yn Nash, V. (2002) Reclaiming Community, Institute for Public Policy Research

Glen (1993) yn Nash, V. (2002) Reclaiming Community, Institute for Public Policy Research

Ymddiriedolaeth Groundwork
http://www.groundwork.org.uk/

Hartley, J. (2000) Trimdon 2000, LEDIS: Local Economic Development Initiatives, The Planning Exchange

Henderson, P. a Thomas, D. N. (2000) Skills in Neighbourhood Work, Routledge

Kochan, K. a Chapman, C. (2000) Poplar, Urban Environment Today, 30 Tachwedd 2000

LANTRA
http://www.lantra.co.uk/nto/welcome.htm

Taylor, S. a Cameron, H. (2002) Attracting new learners international evidence and practice, Learning and Skills Development Agency, Blackmore Ltd

McGivney, V. (2000) Working with excluded groups: guidance on good practice for providers and policy makers in working with groups under-represented in adult learning, NIACE

Gwirfoddolwyr y Mileniwm
http://www.millenniumvolunteers.gov.uk/index.cfm

Mohan, G. a Mohan, J. (2002) Placing social capital, Prifysgol Portsmouth

New Deal for Communities (NDC) in Government Office for London
http://www.go-london.gov.uk/nrandregeneration/new_deal_for_communities_in_gol.asp

Pahl, R (1970) Community and Ideology: an essay in applied social philosophy, London, Routledge a Kegan Paul

Adnoddau Cymheiriaid
http://www.peer.ca/peer.html

Prentice, M. a Garcia, R. M. (2000) SERVICE LEARNING: THE NEXT GENERATION IN EDUCATION, Community College Journal of Research and Practice, 24:19–26

Prescott, N. (1997) The South Tyneside accreditation project: a route to lifelong learning, Education and Training, Cyfrol 39, Rhif 2, MCB University Press, td 65-70

Ymddiriedolaeth y Tywysog
http://www.princes-trust.org.uk/home.asp

Putnam, R. (1995) Making Democracy Work, Princeton, Princeton University Press yn Nash, V. (2002) Reclaiming Community, Institute for Public Policy Research

Putnam, R. (2001) Bowling Alone, New York, Simon & Schuster yn Nash, V. (2002) Reclaiming Community, Institute for Public Policy Research

GRWP HYFFORDDI SAFFRON WALDEN
http://www.arkesden.fsbusiness.co.uk/index.html

SCHAMESS, A., WALLIS, R., DAVID, R. ac EICHE, K. (2000) Academic Medicine, Service Learning, and the Health of the Poor: A Community Perspective, AMERICAN BEHAVIORAL SCIENTIST, Cyfrol. 43 Rhif 5, Chwefror 2000 793-807, 2000 Sage Publications, Inc.

Scottish Power
http://www.scottishpower.plc.uk/pages/

Switch
http://www.switch-cymru.org.uk/english/home.htm

Taylor, J. (2000) A LONG-STANDING STRUGGLE, Adults Learning Chwefror 2000, Cyfrol 11 Rhifyn 6

Swyddfa'r Cabinet, Yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2000) National Strategy for Neighbourhood Renewal: a framework for consultation

Swyddfa'r Cabinet, Yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2001) National Strategy for Neighbourhood Renewal: Policy Action Team Audit

Y Swyddfa Gartref (2002) Active Communities: Initial Findings from the 2001 Home Office Citizenship Survey

Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC)
http://www.nfyfc.org.uk/

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
http://www.wcva.org.uk/dsp_home.cfm

Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru
http://www.wtuc-learn.org.uk/start_english.htm

NDC GORLLEWIN CANOL HARTLEPOOL
http://www.go-ne.gov.uk/corporate/regen/wcentral_hpool_ndc.htm

NDC West Ham & Paislow
http://www.ndfc.co.uk/community

Whiteley, P. F. (2000) Economic Growth and Social Capital, Political Studies, Blackwell Publishers, Cyfrol 48, 443-466

Wicks, M. (2001) SKILLS FOR SOCIAL INCLUSION AND KNOWLEDGE ECONOMY: Towards a Shared Vision, Yr Adran Addysg a Sgiliau

Women’s Health Matters (1986) Women: A key to healthy communities, Community Health UK Action, Rhifyn 54, td 9

YHA Cymru a Lloegr
http://www.yha.org.uk/sctn_grou/youth_com.html